




RCS



## **Proses Dwy Ffordd**

# **Cymorth y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd ar gyfer y Sector Gwirfoddol yng Nghymru**

## **Adroddiad Terfynol**

-

**Chwefror 2023**

## **Rhagair**

Mae gan y Sector Gwirfoddol yng Nghymru hanes hir a chryf o gyflwyno arloesedd a gwasanaeth i'r gymuned. Gwnaeth dyfodiad Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd (ESIFs) greu cyfleoedd sylweddol posibl i Sector Gwirfoddol Cymru fwrw iddi i wneud mwy, a hynny mewn gwahanol ffyrdd. Aeth y Sector ati'n frwdfrydig i fanteisio ar y cyfleoedd hyn.

Ond pa mor llwyddiannus fu'r Sector Gwirfoddol wrth gystadlu am y cyllid hwnnw, ac wrth helpu i lywio'r ffordd y cafodd y rhaglenni eu cynllunio a'u monitro? Beth oedd union effaith y cyllid ESIF ar y Sector Gwirfoddol, a pha effaith gafodd y Sector Gwirfoddol ar yr ESIFs yng Nghymru?

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r canfyddiadau a'r casgliadau o adolygiad o'r gydberthynas honno, yn enwedig mewn perthynas â Chronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) a Chronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF). Mae'r adroddiad yn cofnodi'r gydberthynas weithredol honno wrth iddi ddatblygu dros dri chyfnod cyllido ers 2000.

Ein nod oedd adnabod sut aeth y sector gwirfoddol ati i ryngweithio â'r ESIFs o ran gwaith polisi, cynllunio a chyflawni er mwyn cofnodi'r effeithiau ac awgrymu gwersi ar gyfer y dyfodol wrth i'r trefniadau ar ôl Brexit gael eu rhoi ar waith.

Rydym yn ddiolchgar dros ben i'n cydweithwyr yn CGGC, Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, a Grŵp Llywio'r Prosiect am eu help a'u mewnwelediad gwerthfawr, ac i'r lliaws o randdeiliaid y gwnaethom ymgysylltu â nhw. Roeddent wastad yn ystyriol ac yn adeiladol, gan roi o'u hamser yn hael mewn cyfweiliadau, trafodaethau a gweithdai i helpu i lywio'r gwaith hwn.

**Tim Allen a Clive Grace**  
**Cyfarwyddwyr UKRCS**  
**Chwefror 2023**

# Cynnwys

<b>Crynodeb Gweithredol</b>	4
<b>Adran 1. Briff a Methodoleg</b>	7
<b>Adran 2. Naratif y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd yng Nghymru</b>	9
<b>Adran 3. Data ac Ystadegau</b>	15
<b>Adran 4: Dadansoddiad o Ymgysylltiad y Sector Gwirfoddol</b>	20
<b>Adran 5: Rôl a Gwerth Cymorth Technegol / Model y Corff Cyfryngol</b>	29
<b>Adran 6: Gwersi / Egwyddorion Cynllunio ar gyfer y Dyfodol</b>	36
<b>Atodiad 1: Amcanion y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd</b>	41

# Crynodeb Gweithredol

## Cyffredinol

1. Cafodd y gydberthynas rhwng y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd (ESIFs) a'r Sector Gwirfoddol yng Nghymru ei rhoi ar waith a'i datblygu dros y tri chyfnod cyllido ers 2000 (sef rhwng 2000 a 2006, 2007 a 2013 a 2014 a 2020).
2. Cafodd y gydberthynas ei hymwreiddio yng nghyd-destun ehangach dull cefnogol Llywodraeth Cymru o ymdrin â'r sector gwirfoddol, a chafodd hyn ei adlewyrchu pan grëwyd Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector, a phan roddodd y dull 'tri traean' gydnabyddiaeth gyfartal i'r Sector Gwirfoddol ochr yn ochr â'r Sectorau Preifat.
3. Mae cyfraniad ansoddol a meintiol y Sector Gwirfoddol wedi bod yn sylweddol, a hynny mewn tair ffordd eang sydd, gyda'i gilydd, wedi creu mwy o effaith na'r disgwyl o ystyried fframwaith yr Undeb Ewropeaidd a'r ffocws ar y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd. Dyma'r tri phrif faes effaith o dan sylw:
  - a. Cyflawni rhaglenni a phrosiectau'n llwyddiannus er mwyn sicrhau buddion sylweddol i ddinasyddion a chymunedau, ac wrth wneud hynny, ymestyn cyrhaeddiad y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd.
  - b. Dylanwadu ar bolisiau a gweithdrefnau perthnasol o ran dylunio a defnyddio.
  - c. Cael effaith bositif a buddiol ar y gwaith o gyflwyno methodolegau cyflenwi, yn cynnwys galluogi mudiadau a phrosiectau llai'r sector gwirfoddol i gyfrannu, er enghraifft, drwy rôl Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) fel 'Corff Cyfryngol' ar gyfer cyfnod cyllido 2014 – 2020. Gwnaeth hyn amlygu hyder mewn gweithredwyr allweddol i alluogi rôl y sector gwirfoddol ac i fanteisio ar y gallu hwnnw.
4. Gwnaeth yr enghreifftiau a ddaeth yn sgil y gwaith hwn, o waith CGGC a'r gwerthusiadau o brosiectau unigol, ddangos tystiolaeth o gyfraniad cyfoethog ac amrywiol y Sector Gwirfoddol ar draws y tri dimensiwn, ynghyd â thystiolaeth o'r ffordd y gwnaeth y dull gweithredu hwn ddatblygu ac aeddfedu dros y cyfnodau cyllido olynol.

## Dylanwad a Ffocws y Sector Gwirfoddol

5. Gwnaeth y sector gwirfoddol chwarae rhan bwysig dros y tri chyfnod cyllido, drwy ddylanwadu ar y gwaith cynllunio, dylunio a chyflawni a thrwy alluogi'r sector i gyfrannu drwy raglenni a phrosiectau.

## Dylanwadu ar Gynllunio, Dylunio a Chyflawni

6. Bu'r sector gwirfoddol yn ddylanwadol drwy'r dulliau canlynol:
  - a. Rôl arwain genedlaethol a brwdfrydig CGGC a welodd botensial yr ESIFs o'r adeg y daethant yn weithred ddatganoledig o 2000 ymlaen. Trwy weithio gyda phobl

eraill yn y sector gwirfoddol, bu CGGC yn llais a phresenoldeb dylanwadol ar draws y tri chfnod cyllido.

- b. Gwaith CGGC a'r dull cynhwysol a fabwysiadwyd gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO), a fagodd ddylanwad drwy gynrychiolaeth y sector ar rai swyddogaethau gweinyddol allweddol.
- c. Graddfa'r dylanwad ar bolisiau, er enghraifft, drwy ymwreiddio polisiau ac arferion cydraddoldeb wrth ddatblygu'r Themâu Trawsbynciol a oedd yn seiliedig ar uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer yr ESIFs. Er enghraifft, bu modd i fudiadau sector gwirfoddol fel Chwarae Teg gynnig cyngor a mewnbwn ac elwa ar gyllid i ddatblygu rôl merched yn y gweithle.
- d. Sefydlu Fforwm Ewropeaidd y Trydydd Sector yn 2011 i ddwyn ynghyd arweinwyr y sector gwirfoddol a chyd-noddwyr prosiectau ESF ac ERDF i rannu gwybodaeth ac arfer da.
- e. Cael CGGC fel darparwr cymorth technegol i'r sector gwirfoddol, wedi'i gyllido a'i alluogi gan y swyddogaeth Cymorth Technegol a ddarparwyd ar ei chyfer gan yr ESIFs. Bu CGGC yn ffynhonnell allweddol o arbenigedd arbenigol perthnasol.
- f. Gwaith CGGC ar helpu i ysgogi cydweithio perthnasol rhwng mudiadau.

### **Cyfrannu at Raglenni a Phrosiectau**

7. Er mai elfen gymharol fach o gyllid a gweithgarwch ehangach y sector gwirfoddol yng Nghymru oedd yr ESIFs (amcangyfrifir eu bod yn cyfrif am rhwng 1% a 2% o gyllid y sector gwirfoddol yng Nghymru), llwyddasant i ymestyn cyrhaeddiad y sector gwirfoddol mewn rhai ffyrdd allweddol, a thrwy wneud hynny, llwyddasant i ehangu cyrhaeddiad y Cronfeydd yn yr un modd, er enghraifft drwy:

- a. Gyllido ychydig o weithgarwch yn y gymuned i ddechrau yn rhaglen 2000 – 2006, er i newidiadau dilynol o ran symud pwyslais a mabwysiadu dull mwy strategol i ddefnyddio'r Gronfa leihau peth o'r gweithgarwch hwn.
- b. Ehangu cwmpas y cymorth cyflogadwyedd i helpu grwpiau ac unigolion a oedd yn anoddach eu cyrraedd drwy lwybrau cymorth cyflogadwyedd prif ffrwd
- c. Cymorth a chyllid i fentrau cymdeithasol, mentrau cymunedol a chwmnïau cydweithredol.
- d. Cymorth i brosiectau ynni cymunedol a bach, er bod y rhain yn wynebu heriau ehangach fel caniatâd cynllunio a chysylltu â'r grid a wnaeth gyfyngu ar yr hyn a allai'r prosiectau eu cyflawni ar y pryd.
- e. Er eu bod y tu hwnt i gwmpas y gwaith hwn, gwnaeth Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014 – 2020 (a'r rhaglenni cyn hynny) a Chronfeydd eraill fel INTERREG hefyd roi cymorth i'r sector gwirfoddol. Er enghraifft, drwy raglenni LEADER a

rhaglenni amaeth-amgylcheddol lle mae mudiadau'r sector gwirfoddol yn berchen ar dir neu yn ei reoli.

8. Roedd rhai nodweddion penodol o ymgysylltiad y sector gwirfoddol â'r Cronfeydd:

- a. Daeth y dull cyffredinol o ddefnyddio'r Cyllid yn fwy strategol rhwng 2007 a 2013, ac fel arfer, mudiadau gwirfoddol mwy o faint, gyda chysylltiad cryf ag amcanion cyffredinol y Gronfa oedd yn ymgysylltu'n uniongyrchol. O ganlyniad, gwnaeth y mudiadau hyn ddatblygu eu capasiti ac ehangu eu gallu i gyflawni eu gwaith.
- b. Bu modd i fudiadau llai a allai, o bosibl, gyflawni elfennau o amcanion y Gronfa ond nad oedd fel arfer â'r gallu i ymdrin â'r gofynion gweinyddol yn uniongyrchol gymryd rhan drwy brosiectau ymbarél fel Porth Ymgysylltu CGGC ac yn ddiweddarach drwy Gronfa Cynhwysiant Gweithredol CGGC, a weithredwyd gan CGGC fel Corff Cyfryngol â chyfansoddiad ffurfiol. Yn y ddau achos, ymgymerodd CGGC â'r ochr weinyddol er mwyn rheoli rhywfaint o'r gofynion a oedd ynghlwm â chyflawni prosiectau wedi'u cyllido.

9. Yn fyr, ymhlith y gwersi allweddol a ddysgwyd, dangosodd yr ESIFs:

- a. Sut y gall y sector gwirfoddol – os caiff ei reoli'n effeithiol – gyfrannu at amcanion polisi ehangach. Yn achos yr ESIFs yng Nghymru, gwnaeth hyn gynnwys mynediad at y farchnad lafur, cymorth i fentrau cymdeithasol a phrosiectau amgylcheddol a chyfrannu at amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac at flaenoriaethau thematig neu drosfwaol, gan gynnwys cydraddoldebau.
- b. Pwysigrwydd a gwerth ymhél ag arweinwyr y sector gwirfoddol wrth ddatblygu a chynllunio polisiau a rhaglenni ac wrth oruchwylio a chyflawni rhaglenni.
- c. Gwerth galluogi cyrff gwirfoddol bach â chapasiti gweinyddol cyfyngedig i gael gafael ar gyllid drwy gyrff ymbarél ac yn ddiweddarach drwy ddefnyddio'r Corff Cyfryngol, h.y. cyrff galluogi sy'n adnabod eu grwpiau cleient ac sy'n gallu eu cyrraedd yn effeithiol, sef trwy CGGC yn yr achos hwn.
- d. Sut i ysgogi elfennau o'r sector gwirfoddol i broffesiynoli a chryfhau galluoedd gweinyddol a chyflawni craidd.
- e. Sut i fanteisio i'r eithaf ar gyfraniad y sector gwirfoddol heb lesteirio'r cyflawniad drwy ymyriadau gweinyddol.
- f. Gwerth y Cymorth Technegol i sefydlu cyrff cymwys sy'n gallu cynnig cyngor a chymorth technegol er mwyn ymestyn cyrhaeddiad y trefniadau cyllido yn ogystal â gwella'r gydymffurfiaeth â gofynion ac amodau cyllido yn ei hystyr ehangaf.

## Chwefror 2023

# Cydblethu

## Cymorth y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd ar gyfer y Sector Gwirfoddol yng Nghymru

### Adran 1: Cyflwyniad, Briff y Prosiect a'r Fethodoleg

#### Cyflwyniad

1.1. Dros yr 20 mlynedd a rhagor y mae'r ESIF wedi gweithredu yng Nghymru ers 2000, mae'r gydberthynas â'r sector gwirfoddol wedi bod yn nodwedd arwyddocaol. Yn y diwrnodau cynnar, gwnaeth Llywodraeth Cymru gyfleu'r athrawiaeth 'tri thraean', a ddyluniwyd i roi pwysau cymharol gyfartal ar y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol.

1.2. Yn y pen draw, arweiniodd hyn CGGC, y corff cydlynu cenedlaethol ar gyfer y sector gwirfoddol yng Nghymru, i ennill statws Corff Cyfryngol - cyfrifoldeb a roddwyd i ddim ond un corff arall, a hwnnw'n rhan o Lywodraeth Cymru ei hun. Roedd hyn yn arwydd o gydwethrediad uchel ac yn mynegi llawer o hyder yng ngallu'r sector gwirfoddol i chwarae rôl o'r fath.

1.3. Wrth i'r ESIFs agosáu at ddiwedd eu taith ar ôl Brexit, penderfynodd CGGC gomisiynu adolygiad o'r gydberthynas newidiol rhwng y Cronfeydd a'r sector gwirfoddol a fu'n ddylanwadol ar y ddwy ochr. Aeth ati i gael barn annibynnol ar y cymorth a roddwyd i'r sector gwirfoddol gan yr ESIFs, ac i gynnal asesiad ar ddylanwad y sector gwirfoddol ar yr ESIFs. Ar ôl proses dendro gystadleuol, comisiynwyd UKRCS Ltd.

#### Y Briff

1.4. Briff y prosiect oedd archwilio ac adrodd ar sut y mae'r ESIFs - yn enwedig Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) a Chronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) - wedi cynorthwyo'r sector gwirfoddol yng Nghymru dros y tri chyfnod cyllido ers 2000 (2000 - 2006, 2007 - 2013 a 2014 - 2020) ac i:

- a. Benu a chofnodi cyfraniadau a chyflawniadau meintiol ac ansoddol y sector, ac i ddangos yr effaith y mae'r cyllid a'r sector wedi'i chael, gan gynnwys drwy astudiaethau achos prosiectau penodol.
- b. Amlygu ymgysylltiad y sector â gwaith dylunio a monitro'r rhaglenni, a'r effaith ar y sector gwirfoddol yn ogystal ag effaith y sector gwirfoddol.
- c. Amlygu effeithiolrwydd y gwasanaeth cymorth technegol, gan gynnwys y defnydd o'r model Corff Cyfryngol i annog y sector gwirfoddol i gymryd rhan, er enghraifft, drwy ddsbarthu grantiau maint hygyrch i fudiadau gwirfoddol.

- d. Nodi'r gwersi allweddol a ddysgwyd yn sgil cyfraniad y sector gwirfoddol i raglenni'r Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd, yn ystod ac ers pandemig Covid-19.

1.5. Comisiynwyd y prosiect ym mis Medi 2022 a chafodd y rhan helaeth ohono ei gwblhau ym mis Chwefror 2023.

## **Methodoleg**

1.6. Mabwysiadwyd dull cymysg, syml o gyflawni'r prosiect a oedd yn cyfuno:

- a) Adolygiad wrth ddesg cychwynnol o ddogfennau gwaith a pholisiau.
- b) Adolygiad llenyddiaeth o'r ymchwil a oedd ar gael ac, yn benodol, gwerthusiadau ac adolygiadau a amrywiodd o werthusiadau lefel prosiect unigol, gwaith craffu gan bwyllgorau dethol a gwaith craffu gwleidyddol arall i adolygiadau ar ddiwedd cyfnod cyllido.
- c) Cyfweiliadau casglu tystiolaeth gan ddefnyddio Canllawiau Pynciau cytunedig. Gwnaeth y rhain ymhél â rhanddeiliaid o Lywodraeth Cymru, CGGC, y sector gwirfoddol ac ystod eang o randdeiliaid a phobl eraill â diddordeb, gan gynnwys rhai pobl y byddwn yn eu disgrifio fel sylwedyddion awdurdodol a gynigiodd ddyfyniadau swyddogol.
- d) Astudiaethau achos enghreifftiol, enghreifftiau a data yn cynnwys dadansoddiad mesurol i nodi graddfa a natur eang cyfraniad y sector gwirfoddol.
- e) Gweithdy dilysu Grŵp Llywio.

## **Yr Adroddiad Hwn**

1.7. Mae sylwedd ein hadroddiad yn dechrau yn Adran 2 drwy ddisgrifio datblygiad yr ESIFs rhwng 2000 – 2020, gan edrych ar eu prif ddatblygiadau a nodweddion. Rydym yn ystyried hwn yn broses ddatblygu ymatebol, wedi'i lywio i gyd-fynd â'r blaenoriaethau newidiol yn erbyn cyd-destun proses ddatganoli sy'n aeddfedu i'r sector.

1.8. Mae Adran 3 yn cynnig ychydig o ddata allweddol i ddangos faint o brosiectau a gweithgareddau a gyllidwyd gan yr ESIFs a gafodd eu cyflawni gan y sector gwirfoddol, ac mae Adran 4 yn edrych ar gyfraniad y sector gwirfoddol i'r broses polisi a chynllunio a beth oedd nodweddion y cyfraniad hwnnw'n ymarferol.

1.9. Mae Adran 5 yn asesu rôl a gwerth cymorth technegol, ynghyd ag arwyddocâd y model Corff Cyfryngol, ac mae Adran 6 yn tynnu sylw at rai gwersi awgrymedig ac egwyddorion cynllunio ar gyfer y dyfodol.

1.10. Mae naratif yr adroddiad hefyd yn cynnwys astudiaethau achos, darluniau a dyfyniadau er mwyn amlygu'r canfyddiadau a'r casgliadau.



## Adran 2. Naratif y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd yng Nghymru

2.1. Mae'r adran hon yn crynhoi sut datblygodd y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd dros y tri chyfnod cyllido rhwng 2000 a 2020, gan gyfeirio'n benodol at gyfraniad y sector gwirfoddol.

### Trosolwg

2.2. Roedd Cronfeydd Strwythurol yn un elfen sylweddol o agenda datganoli'r DU ym 1997. Cawsant eu datganoli i Gynulliad Cymru a wnaeth, yn ei dro, sefydlu Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) fel asiantaeth weithredol ar ran y Cynulliad i oruchwylio'r gwaith gweinyddol.

2.3. Prif nod WEFO oedd sicrhau bod Cymru yn cael cymaint o fudd â phosibl o'r cyllid Ewropeaidd. Fel y'u nodwyd yn 2000, yr amcanion oedd gwella cyfleoedd datblygu economaidd a chyfleoedd gwaith ledled Cymru drwy hyrwyddo twf economaidd cynaliadwy, hybu ffyniant ym mhob cwr o Gymru a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb, anweithgarwch economaidd ac allgau cymdeithasol.

2.4. Dros y tri chyfnod cyllido ers 2000, datblygodd y dull gweithredu cyffredinol a chafodd ei fireinio i ymateb i flaenoriaethau Cymru ac i adlewyrchu newidiadau'r UE, yn arbennig wrth addasu i'r gwladwriaethau a ymunodd o Ddwyrain Ewrop. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi y bu'r cyfansymiau cyffredinol ar gyfer pob cyfnod cyllido yn rhyfeddol o sefydlog yn gyfanredol hyd yn oed os oedd y cydbwysedd rhwng Dwyrain a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn amrywio mwy.

2.5. Mae Tabl 1 isod (gweler t.17) yn rhoi trosolwg o'r cyllid UE a oedd ar gael (gan nodi'r gofyniad am gyllid cyfatebol gan Gymru). O ran y cyd-destun, er enghraifft, roedd gan y cyfnod cyllido rhwng 2000 a 2006 gyllideb gyfansymiol Cymru gyfan o £1.85 biliwn ar gyfer yr ESF a'r ERDF i'w defnyddio'n effeithiol dros naw mlynedd, gan gynnwys pan 'redwyd allan' ar ôl 2006 pan oedd cyllideb Llywodraeth Cymru yn oddeutu £12 biliwn y flwyddyn.

### Y Prif ddatblygiadau yn ystod y tri chyfnod cyllido

2.6. **2000 - 2006:** Gwnaeth y cyfnod cyllido hwn ganolbwyntio cyfran sylweddol o'r cyllid ar yr hyn a alwyd yn Amcan 1 a oedd yn ymwneud â Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, gyda chyllid ERDF Amcan 2 ar gael mewn rhannau penodol o Ddwyrain Cymru a chyllid ESF Amcan 3 ar gael ledled Dwyrain Cymru. O ran cyflenwi, gwnaeth y cyfnod cyllido hwn gefnogi mwy o lawer o brosiectau a oedd, ar y cyfan, yn rhai llai o faint (3000+), gan gynnwys ychydig o botensial am elfen a oedd yn canolbwyntio ar gymuned (er enghraifft, drwy Gronfa Risg Gymdeithasol ESF CGGC). Llwyddwyd hefyd i sefydlu prosiect Cronfa Buddsoddi Cymunedol cyntaf CGGC drwy Buddsoddiad Cymdeithasol Cymru mewn partneriaeth â'r hyn a elwir yn CWMPAS erbyn hyn gyda'r nod o gefnogi mentrau cymunedol a chymdeithasol.

**2.7. 2007 – 2013:** Gwnaeth y cyfnod cyllido hwn gadw'r gwahaniaeth economaidd rhwng Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, a gafodd fudd o gronfeydd Cydgyfeirio mwy sylweddol. Cafodd Dwyrain Cymru fudd o gronfeydd Cystadleurwydd Rhanbarthol a Chyflogaeth, gydag oddeutu 90% o'r cyllid wedi'i neilltuo ar gyfer yr ardal Cydgyfeirio.

2.8. Gwnaeth y cyfnod cyllido hwn beri i'r pwyslais symud yn sylweddol, oherwydd dechreuwyd edrych yn fwy strategol ar effaith, gyda llai o brosiectau mawr yn cael eu cymeradwyo a'u cyllido (300+). Yn ystod y cyfnod hwn hefyd, gwelwyd y syniad o brosiectau 'ymbarél' fel Porth Ymgysylltu ESF CGGC a rhaglenni Marchnad Lafur Drosiannol yn cael eu datblygu ymhellach, lle y gwnaeth CGGC chwarae rhan allweddol mewn sicrhau cyllid ac yna galluogi mudiadau llai'r sector gwirfoddol i ddod yn gyrrff buddiolwyr a chyfrannu eu harbenigedd at amcanion ehangach y cronfeydd strwythurol. Yn ystod y cyfnod hwn hefyd, parhawyd i gynorthwyo mentrau cymunedol a chymdeithasol drwy ail brosiect Cronfa Buddsoddi Cymunedol ERDF a sefydlwyd gan CGGC a gafodd, eto, ei redeg drwy Buddsoddiad Cymdeithasol Cymru.

**2.9. 2014 – 2020:** Cafodd Gorllewin Cymru a'r Cymoedd eu pennu fel rhanbarth 'llai datblygedig', gan ddenu cyfran sylweddol o gyllideb gyffredinol yr UE, a pharhaodd Dwyrain Cymru i gael ei hystyried yn rhanbarth 'mwy datblygedig' gan dderbyn dyraniad llawer llai.

2.10. Cadwyd y dull strategol a fabwysiadwyd ar gyfer cyfnod cyllido 2007 – 2013. Ymysg y datblygiadau roedd prosiectau megis Cronfa Cynhwysiant Gweithredol ESF CGGC, a oedd yn un elfen o'r ymdrech i gyflwyno'r cysyniad o Gyrrff Cyfryngol fel datganoliad pellach o gyfrifoldebau gweinyddol penodedig i'r hyn a ddisgrifiwyd gennym o'r blaen fel prosiectau ymbarél.

2.11. Yr egwyddor oedd bod un mudiad yn sicrhau cyllid. Byddai'r mudiad hwn wedi'i gydnabod fel un a oedd â'r gallu i weinyddu cyllid ac adrodd yn ôl i WEFO, ond hefyd yn un a oedd mewn sefyllfa addas i ymgysylltu a rhannu'r cyllid ar draws amrediad ehangach o gyrrff priodol a oedd fel arfer yn rhai llai o faint. CGGC oedd un o ddau Gorff Cyfryngol. Yn ystod y cyfnod hwn hefyd, cafodd CGGC gyllid ar gyfer Cronfa Tyfu Busnesau Cymdeithasol ERDF CGGC a fyddai'n cael ei chyflwyno drwy Buddsoddiad Cymdeithasol Cymru, gan gynnig cymorth ariannol unwaith eto i fentrau cymunedol a chymdeithasol.

2.12. Un egwyddor effeithiol a ddilynwyd yn ystod y tri chyfnod cyllido oedd y syniad o brosiectau 'asgwrn cefn' a oedd yn cynnal gweithgareddau allweddol o raglenni blaenorol er mwyn sicrhau parhad – er enghraifft, o ran y sector gwirfoddol, cynnig i fentrau cymunedol a chymdeithasol drwy Buddsoddiad Cymdeithasol Cymru a CWMPAS.

## **Rhai nodweddion o waith Cynllunio a Chyflawni'r Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd**

### **Cynhwysiant a Throsolwg**

2.13. O'r cychwyn cyntaf, aeth WEFO ati i gynllunio a rhannu'r ESIFs ymhlith y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol mewn modd cynhwysol a phriodol, sef "Y Dull Tri Thraean". Wrth gwrs, roedd cyflawni cynhwysiant ynghyd â bodloni'r gofynion gweinyddol beichus a oedd ynghlwm â rhannu cyllid yr UE ag amcanion cymharol

gymhleth ar raddfa yn gofyn am uwchstrwythur soffistigedig. Er enghraifft, cafodd cronfa 2000-2006 ei harwain gan WEFO o ran gweinyddu'r rhaglen. Ond, cafodd ei chyflwyno drwy gyfres o bartneriaethau a sefydlwyd i gyfrannu at y gwaith o nodi ac asesu prosiectau priodol a rhoi cymorth iddynt, a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. O ran Amcan 1, roedd hyn yn cynnwys:

- a. Pwyllgor Monitro Rhaglen â chyfrifoldeb cyffredinol am y cyfeiriad strategol ac am y Ddogfen Raglennu Sengl (y ddogfen gynllunio gyffredinol). Cadeiriwyd hwn gan Aelod o'r Cynulliad Cenedlaethol a 18 o aelodau eraill, gyda chwe unigolyn o bob un o'r tri sector.
- b. Deg partneriaeth ranbarthol, gyda phob un yn ymdrin â thema benodol gan gynnwys themâu yn ymwneud â'r oes wybodaeth, entrepreneuriaeth, arloesedd / ymchwil a datblygiad, adfywio cymunedol, (CGGC oedd y corff arweiniol ar gyfer y thema hon), cyflogaeth a chymorth busnes. Roedd y rhain yn gyfrifol am nodi, cefnogi a chynorthwyo â'r gwaith o ddatblygu prosiectau unigol.
- c. 15 o bartneriaethau lleol yn ymdrin ag ardaloedd awdurdodau lleol. Eto, roedd y rhain yn gyfrifol am nodi, cefnogi a chynorthwyo â'r gwaith o ddatblygu prosiectau unigol.
- d. Pedair partneriaeth strategaeth i roi mwy o gyngor ar brosiectau a oedd eisoes wedi'u cynnig gan bartneriaethau rhanbarthol neu leol.

2.14. Er bod trefniadau 2000 – 2006 wedi'u datblygu a'u mireinio dros gyfnodau cyllido olynol, cafodd yr egwyddorion a ymwreiddiwyd yn y rhaglen honno – ac yn enwedig cynhwysiant ar draws sectorau - eu cynnal.

2.15. Felly, er enghraifft, Rhaglenni Gweithredol 2014 – 2020 oedd yn rheoli sut y gwariwyd y cyllid yng Nghymru ac roeddent yn cynnwys un ar gyfer pob ardal gyllido ddaearyddol (e.e. Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru). Ond, Pwyllgor Monitro Rhaglenni Cymru ar gyfer yr ESIFs oedd yn parhau i fod yn gyfrifol am fonitro'r gwaith o gyflawni'r ERDF, yr ESF a Chronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD) er mwyn ystyried sut roedd y cronfeydd yn gweithio gyda'i gilydd i gyflawni'r effaith fwyaf posibl.

2.16. Roedd hyn yn cynnwys 27 o Aelodau, gan gynnwys Canolfan Cydweithredol Cymru (CWMPAS bellach) a CGGC. Roedd y cylch gwaith yn cynnwys ceisio sicrhau cydgysylltiad, er mwyn lleihau dyblygu, a galluogi amrywiaeth o safbwyntiau, cefndiroedd a phrofiadau er mwyn bwydo arbenigedd pobl i mewn i'r broses benderfynu a chynllunio strategol.

## **Proses Ddatblygu Ymatebol**

2.17. Ochr yn ochr â'r nod o gyflawni dull cynhwysol, ac yn unol â'r briff craidd i sicrhau bod Cymru yn cael y budd mwyaf posibl o'r cronfeydd Ewropeaidd, aeth WEFO a Llywodraeth Cymru ati i ymwreiddio proses o ddysgu parhaus dros yr 20 mlynedd a'r tri chyfnod cyllido. Mae mynd ati'n fanwl i adolygu'r gwaith sylweddol a'r dogfennau ategol sy'n gysylltiedig â'r ESIFs, sy'n adlewyrchu'r dysgu hwn, y tu hwnt i gwmpas y gwaith o dan sylw, ond dyma rai enghreifftiau nodedig:

- a. Datblygwyd dull mwy strategol. Dywedodd Archwilio Cymru: *“Gan ddysgu gwersi o raglenni 2000-2006, dechreuodd Llywodraeth Cymru ar gylch cyllido 2007-2013 yn awyddus i symleiddio strwythurau’r rhaglen, canolbwyntio mwy ar flaenoriaethau strategol a rheoli perfformiad yn fwy effeithiol drwy lai o brosiectau mwy o faint. Gwnaeth Llywodraeth Cymru hefyd roi mwy o bwyslais ar gydweithio rhwng rhanddeiliaid a mwy o ddefnydd o brosesau caffael cystadleuol”*<sup>1</sup>.
- b. Yn 2011, cynhaliodd WEF0 ‘ymarferiad myfyrio’ er mwyn deall y gwersi a ddysgwyd o Raglenni Cronfeydd Strwythurol 2007-2013 yng Nghymru, ac yn 2012, comisiynwyd Dr Grahame Guilford i gynnal adolygiad annibynnol o’r trefniadau gweithredu. Cyflwynodd hwn 12 argymhelliad ar gyfer rhaglenni 2014 – 2020 er mwyn targedu buddsoddiadau’n well a chael cymaint â phosibl o fuddion oddi wrthynt<sup>2</sup>.
- c. Mewn ymateb i ymchwiliad Pwyllgor Menter a Busnes Senedd Cymru i’r cynigion ar gyfer 2014 – 2020, nododd Llywodraeth Cymru yr angen i ‘wneud penderfyniadau’ ar faterion a oedd yn cynnwys:
  - i. Nodi’r blaenoriaethau cyllido craidd a chanolbwyntio adnoddau er mwyn sicrhau’r effaith fwyaf posibl.
  - ii. Gwella cynladwyedd buddsoddiadau, gan gynnwys drwy roi mwy o bwyslais ar allbynnau, canlyniadau a deilliannau.
  - iii. Nodi’r ffyrdd gorau o gyfrannu at nodau twf craff, cynaliadwy a chynhwysol.
  - iv. Graddau targedu daearyddol a gofodol, gan gynnwys y ffordd orau o gefnogi cyfleoedd ac anghenion ardaloedd trefol a gwledig a’r cwmpas ar gyfer integreiddio ymyriadau mewn modd cryfach.
  - v. Adolygu’r dulliau cyflawni gyda’r nod o hwyluso mynediad haws i gronfeydd, gan barhau i sicrhau prosiectau o safon uchel.

## Gweinyddiaeth

2.18. Roedd dulliau cyflawni cymhleth a gofynion gweinyddol yr un mor gymhleth ynghlwm â’r ESIFs a yrrwyd gan ffactorau fel:

- a. Awydd gwirioneddol am gynhwysiant ac felly’r angen am systemau asesu a throswlg cymharol gymhleth.
- b. Pa mor soffistigedig yw amcanion y Gronfa o ran mynd i’r afael â materion strwythurol sy’n mynnu dulliau a datrysiadau amlweddol i drechu heriau fel

<sup>1</sup> Archwilio Cymru: Trefniadau Rheoli Rhaglenni Diweddaraf Cronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd yng Nghymru ‘Wedi Gwella’ (Cyhoeddwyd ym mis Ebrill 2014)

<sup>2</sup> Buddsoddi mewn Twf a Swyddi: Adolygiad Annibynnol o Drefniadau ar gyfer Gweithredu Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Ewrop 2014 – 2020, Dr Grahame Guilford Mawrth 2013.

gwella perfformiad economaidd mewn ardaloedd sy'n perfformio'n gymharol wael, meithrin arloesedd, ymchwil a datblygiad, twf busnes a mynd i'r afael â diweithdra ac anweithgarwch economaidd hirdymor.

- c. Mabwysiadu dull y gellid ei ystyried yn fras fel dull gweinyddu sy'n canolbwyntio ar gyfrifo mewn ymateb i gymhlethdodau gofynion yr UE a wnaeth amharu i ryw raddau ar y pwyslais o ran cyflawni canlyniadau sydd yr un mor bwysig. Mae Adran 6 yn ymdrin â hyn ymhellach yng nghyd-destun gwersi a dulliau posibl ar gyfer y dyfodol. Yn ei hanfod, cafodd prosiectau eu hasesu cymaint am eu cydymffurfiaeth a'u hallbynnau ag o ran eu canlyniadau a'u heffeithiau mwy hirdymor.
- d. Fodd bynnag, mae'n amlwg hefyd bod WEFO wedi ceisio bod yn ymatebol i heriau a rhwystrau gweinyddol pan oedd yn bosibl, o fewn cyfyngiadau'r UE.

2.19. Mae gwerthusiadau o brosiectau unigol yn cadarnhau bod mudiadau mwy o faint wedi ei chael hi'n haws, ar y cyfan, i ymhél â'r ESIFs; cafodd cyrff llai o faint y sector gwirfoddol fwy o effaith o fod yn gysylltiedig â nhw<sup>3</sup>:

*“Mae gwahaniaeth amlwg wedi ymddangos rhwng ymatebwyr o asiantaethau cyflawni mwy megis awdurdodau lleol ac ymatebwyr o fudiadau llai megis mudiadau trydydd sector lleol. Ar y cyfan, roedd mwy o effaith (cadarnhaol a negyddol) ar fudiadau llai o gymharu â chyrff cyflawni mwy.*

*Dyma rai o'r effeithiau cadarnhaol a nodwyd:*

- a. *Y cyfle i ddatblygu a gwella gwaith yr asiantaethau cyflawni a'u gweithgareddau blaenorol.*
- b. *Datblygu profiad, hyder a chapasiti mudiadau.*

*Ni chafwyd cymaint o sôn am effeithiau negyddol yn ystod y cyfweiliadau a theimlai'r ymatebwyr, gan fwyaf, fod yr effeithiau cadarnhaol yn fwy sylweddol [noder: prosiect ymbarél ERDF oedd hwn a gafodd ei reoli drwy Cyfoeth Naturiol Cymru]. Fodd bynnag, y prif effaith negyddol a nodwyd oedd y baich gweinyddol a oedd ynghlwm â rheoli a chyflawni menter Cymunedau a Natur.”*

## **Blaenoriaethau a Newidiadau**

2.20. Yn yr un modd ag yr oedd cyllid cyfanredol ar gyfer yr ESF a'r ERDF yn gymharol gyson ar draws y tri chyfnod cyllido, roedd yna hefyd rhai themâu sylfaenol cyson, ynghyd ag amcanion a oedd yn esblygu, a thargedau i adlewyrchu'r blaenoriaethau newidiol ar gyfer y cyllid. Rhan o'r her i Gymru oedd bod cyflyrau macro-economaidd wedi newid, wrth reswm, yn ystod yr 20 mlynedd dan sylw ac roedd hi'n angenrheidiol bod amcanion a thargedau'r Gronfa yn adlewyrchu hyn, gan hefyd gadw'r naratif ar gyfer twf economaidd a oedd wrth wraidd athroniaeth gyffredinol yr ESIFs.

<sup>3</sup> The Evaluation of the Communities and Nature Project (CAN), Mawrth 2014, Wavehill (Saesneg yn unig).

*“Ar ôl 2010, gwnaeth cyd-destun ehangach cyni wneud cyllid yr UE yn llawer pwysicach.”*

Jane Davidson Cadeirydd – Sero-Net Cymru 2035 a chyn Weinidog Addysg Llywodraeth Cymru ac yna Gweinidog yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd.


Atodiad 1: Mae hwn yn crynhoi amcanion y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewrop yng Nghymru ar gyfer pob un o'r tri chyfnod cyllido.

## Adran 3: Data ac Ystadegau

### Trosolwg

3.1. Gyda'i gilydd, ESIFs oedd yn gyfrifol am 1-2% o gyfanswm cyllid y sector gwirfoddol yng Nghymru o ran cyllid uniongyrchol drwy brosiectau a Chymorth Technegol. Dengys Siart 1 isod hyn ar gyfer y cyfnod 2010/11 hyd at 2014/15. Mae hyn yn cynrychioli cyfran gymharol fach o gyfanswm cyllid y sector gwirfoddol yng Nghymru, ond mae Adrannau 4 a 5 isod yn edrych ar sut gwnaeth y cyllid hwn ychwanegu gwerth at gyrhaeddiad y Cronfeydd ac o ran meithrin gallu'r sector gwirfoddol.

#### Siart 1: Incwm a Chyllid Sector Gwirfoddol Cymru ar ôl Cyfnod Cyni 2010<sup>4</sup>



3.2. Mae Tabl 1 isod yn crynhoi'r cyfnodau cyllido ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru.

3.3. Mae Tabl 2 yn dangos amcan o ddyfarniadau'r sector gwirfoddol (yn seiliedig ar gofnodion WEFO) o'r ESF a'r ERDF ar gyfer y tri chyfnod cyllido o 2000. Mae'r patrwm yn gyson â'r newid cyffredinol o ran pwyslais yn ystod y cyfnodau hyn wrth i ddull mwy strategol gael ei fabwysiadu, gyda llai o ddyfarniadau yn y ddau gyfnod cyllido olaf a llai o adnoddau gan y sector gwirfoddol drwy ddyfarniadau o 2007 – 2013 ymlaen.

<sup>4</sup> Nikos Kapitsinis: 'Finance of the Voluntary Sector in the Post Austerity Period', Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2025 (Cynhaliwyd gan Ysgol Fusnes Prifysgol Caerdydd), Cyhoeddwyd yn 2018

3.4. Wrth ragdybio dyfarniadau'r sector gwirfoddol, rydym wedi edrych ar ddata WEFO ac wedi diffinio'r sector gwirfoddol yn fras i gynnwys mentrau cymdeithasol a chymunedol priodol, elusennau a sefydliadau, gan osod meini prawf fel a yw cloi asedau'n berthnasol er mwyn sicrhau bod yr asedau yn cael eu defnyddio er budd y gymuned.

**Tabl 1 Dyraniadau Cyllid ESF ac ERDF yr UE yng Nghymru<sup>5</sup>**

Cyfnod Cyllido	Ardal dan Sylw	Disgrifydd	Cyfanswm Cyllid ESF / ERDF yr UE
<b>2000 - 2006</b>	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	Amcan 1	£1.14biliwn
	Dwyrain Cymru	Amcan 2 (yn ymdrin â rhannau o Ddwyrain Cymru) ac Amcan 3 (Dwyrain Cymru)	£285 miliwn (Amc. 2) £230 miliwn (Amc. 3)
<b>2007 - 2013</b>	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	Cydyfeiriad	£1.665 biliwn
	Dwyrain Cymru	Cystadleurwydd Rhanbarthol a Gwaith	£185 miliwn
<b>2014 - 2020</b>	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	Rhanbarth Llai Datblygedig	£1.4 biliwn
	Dwyrain Cymru	Rhanbarth Mwy Datblygedig	£300 miliwn

**Tabl 2 Amcan o Ddyfarniadau ERDF ac ESF gyda'i gilydd i'r Sector Gwirfoddol**

Cyfnod y Rhaglen	Cyfanswm y Gyllideb £oedd (ESF / ERDF Cymru Gyfan)	Amcan o Ddyfarniadau'r Sector Gwirfoddol	% o Gyfanswm y Gyllideb
<b>2000 - 2006</b>	£1.655 biliwn	£224 miliwn	13.5%
<b>2007 - 2013</b>	£1.85 biliwn	£105.5 miliwn	5.5%
<b>2014 - 2020</b>	£1.7 biliwn	£138.5 miliwn	8%

3.5. Yn fwy manwl:

- a. Allan o oddeutu £224.5 miliwn o ddyfarniadau i'r sector gwirfoddol rhwng 2000 a 2006, roedd £142.2 miliwn yn gyllid ERDF (63% o gyfanswm y dyfarniadau i'r sector gwirfoddol) ac £81.8 miliwn yn gyllid ESF (37%) –dyfarnwyd y cyllid hwn i 241 o fudiadau unigol, a chafodd rhai o'r rhain mwy nag un dyfarniad.
- b. Allan o oddeutu £105.5 miliwn o ddyfarniadau i'r sector gwirfoddol rhwng 2007 – 2013, roedd £32.1 miliwn yn gyllid ERDF (30%) a £73.4 miliwn yn gyllid ESF (70%) – dyfarnwyd y cyllid hwn i 45 o fudiadau unigol, a chafodd rhai o'r rhain mwy nag un dyfarniad.

<sup>5</sup> Noder: Roedd amrywiadau yn y gyfradd gyfnewid dros amser yn effeithio ar gyfraniadau cyllid yr UE, felly gallai'r ffigurau amrywio, yn dibynnu ar ba bryd y cawsant eu nodi.



- c. Allan o oddeutu £138.5 miliwn o ddyfarniadau i'r sector gwirfoddol rhwng 2014 - 2020, roedd £67.6 miliwn yn gyllid ERDF (49%) a £70.9 miliwn yn gyllid ESF (51%) - dyfarnwyd y cyllid hwn i 13 o fudiadau unigol, a chafodd rhai o'r rhain mwy nag un dyfarniad.

3.6. Yn ystod y tri chyfnod cyllido, gweithredodd CGGC fel corff ymbarél (ac yn ddiweddarach fel corff cyfryngol rhwng 2014 – 2020), yn ogystal â manteisio ar Gymorth Technegol i gynorthwyo'r sector gyda'r rôl gynyddol o gysylltu'r sector gwirfoddol ag ESIFs drwy brosiectau a arweiniwyd gan CGGC:


- a. Yn ystod cyfnod cyllido 2000 – 2006, derbyniodd CGGC £62.4 miliwn (28% o gyfanswm gwerth dyfarniadau'r sector gwirfoddol)
- b. Yn ystod cyfnod ariannu 2007– 2013, derbyniodd CGGC £34.1 miliwn (32% o gyfanswm gwerth dyfarniadau'r sector gwirfoddol)
- c. Yn ystod cyfnod ariannu 2014– 2020, derbyniodd CGGC £49 miliwn (35% o gyfanswm gwerth dyfarniadau'r sector gwirfoddol)

### **Rhaglenni Cyllido eraill gan yr UE**

3.7. Roedd yr ERDF a'r ESF yn rhan o gyd-destun ehangach cyllid yr UE: Dengys Siart 2 isod elfennau amrywiol yr ESIFs yng Nghymru ar gyfer y cyfnod cyllido diwethaf sy'n dilyn patrwm tebyg i'r ddau gyfnod cyllido blaenorol yn fras ac yn dangos sut oedd yr ERDF a'r ESF yn rhan o'r cyd-destun ehangach hwnnw.

### **Siart 2: Cyflwr Cyffredinol Cyllid yr UE 2014 – 2020**

## Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd




3.8. Er ei fod y tu hwnt i gwmpas y gwaith hwn, mae'n bwysig nodi'r canlynol:

- Rhoddodd Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014 – 2020 (a'i rhagflaenwyr) gymorth sylweddol i'r sector gwirfoddol, gan gynnwys drwy'r rhaglenni LEADER ac amaeth-amgylchedd a oedd yn canolbwyntio ar gymunedau, lle gallai mudiadau'r sector gwirfoddol fod yn gymwys os oeddent yn eiddo ar dir neu'n rheoli tir at ddibenion amgylcheddol.
- Bodolaeth rhaglenni eraill a gyllidwyd gan yr UE, gan gynnwys y rheini a oedd wedi'u targedu ar gyfer pysgodfeydd ac INTERREG, a oedd yn ymwneud ag agweddau o sector gwirfoddol Cymru i raddau amrywiol.

3.9. Mae Siart 3 isod yn rhoi crynodeb o'r prif newidiadau dros y tri chyfnod cyllido a sut gwnaeth y sector gwirfoddol yng Nghymru elwa a chyfrannu.

# Siart 3



## Adran 4: Dadansoddiad o Ymgysylltiad y Sector Gwirfoddol

4.1. Mae'r Adran hon yn disgrifio'r dimensiynau allweddol o gysylltiad y sector gwirfoddol â'r ESIFs, gan edrych ar ei ddylanwad cyffredinol wrth ddylunio polisiau, cynlluniau a rhaglenni a sut gwnaeth ymgysylltiad y sector gwirfoddol ymestyn cyrhaeddiad yr ESIFs a'r graddau y gwnaethant helpu i feithrin gallu'r sector gwirfoddol.

*“Un canlyniad sylweddol a wnaeth hi'n haws i'r sector gwirfoddol yng Nghymru fanteisio ar Gronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewrop oedd y cydberthnasau dibynadwy rhwng yr UE ac WEFO, a rhwng WEFO a'r sector gwirfoddol. Nid fel hyn y bu hi yn Lloegr.”*

Yr Athro Syr Adrian Webb, Cadeirydd Cronfa'r Loteri Fawr, Cymru a Chadeirydd Bwrdd Cynghori Gweinidogol Llywodraeth Cymru ar yr Economi

### Ymhél â Pholisïau a Chynllunio

4.2. Yn y bôn, adnoddau cyllido a oedd yn canolbwyntio'n eang ar ddatblygu economaidd oedd yr ESF a'r ERDF, er bod ganddynt ddimensiynau economaidd-gymdeithasol a chynaliadwyedd cryf o ran amcanion a oedd yn cynnwys lleihau tlodi, cydraddoldebau a chynaliadwyedd. Un llais oedd y sector gwirfoddol felly ymhlith darlun cymhleth o randdeiliaid a buddiannau dilys o ran:

- a. Roedd gan y sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i gyd rannau pwysig i'w chwarae.
- b. Roedd ystod gymhleth o fudiadau a allai fod yn gymwys, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, y byd academaidd, cwmnïau (gyda rhai heriau o ran y gydberthynas â rheoliadau Cymorth Gwladwriaethol yr Undeb Ewropeaidd) a mudiadau'r sector gwirfoddol ac ati.
- c. Roedd amryw sectorau a mudiadau mewn sefyllfa dda a/neu'n barod i elwa mwy neu lai. Er enghraifft, yn nodweddiadol, cwmnïau bach yn sector preifat Cymru oedd yn ei chael hi'n anoddach cael gafael ar y cyllid ac, fel y nodwyd uchod, roeddent yn wynebu heriau o ran Rheoliadau'r Cymorth Gwladwriaethol. I'r gwrthwyneb, roedd gan Lywodraeth Cymru ddigon o adnoddau ar y cyfan i gael gafael ar yr ESIFs, ond nid fel hynny yr oedd i fudiadau llai, fel llawer o fudiadau'r sector gwirfoddol.
- d. Fodd bynnag, down i'r casgliad fod cyfuniad o CGGC yn cynnig llais cenedlaethol gweithredol ac adeiladol (yn enwedig trwy ymgysylltu rhagweithiol cynnar) a pharodrwydd WEFO i fod yn gynhwysol, ynghyd â charfan (gymharol fach) o fudiadau sector gwirfoddol a welodd gyfleoedd posibl wedi golygu bod gan y sector gwirfoddol lais cryfach na fyddid wedi'i ddisgwyl fel arall.

*“Roedd y sector gwirfoddol yn ddylanwadol iawn cyn 2000 hyd yn oed, yn enwedig drwy'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol a ddaeth, mewn rhai achosion, yn gyrff cyfryngol rhwng mudiadau gwirfoddol a'r gyrff cyllido, a oedd, gan amlaf, yn awdurdodau lleol*

*ynghyd yng nghyfnod cynnar y ceisiadau ESF. Yn sgil y dylanwadu cynnar hwn, datblygodd Cyngor Partneriaeth y Sector Gwirfoddol, ynghyd â'r athrawiaeth 'tri thraean'. Ein nod oedd meithrin partneriaeth go iawn rhwng y tri sector."*

Jane Davidson Cadeirydd – Sero Net Cymru 2035 a chyn Weinidog Addysg Llywodraeth Cymru ac yna Gweinidog yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd.

4.3. Roedd barn ein sylwebwyr ar yr effaith strategol yn amrywio, er enghraifft, ar a oedd cynnwys y sector gwirfoddol yn pylu llais mwy beirniadol:

*"Nid yw rôl herio'r sector wedi pylu, a hynny'n rhannol am fod cyrff allweddol gan gynnwys CGGC wedi bod yn ymwybodol o'r risg honno ac wedi darparu ar ei chyfer. Helpodd Gweinidogion Llywodraeth Cymru o ran parhau i groesawu cefnogaeth a her gan y sector. Os rhywbeth, y swyddogion sydd wedi bod yn fwy pryderus ynghylch cyfyngu beirniadaeth."*

Peter Davies cyn-Gadeirydd CGGC

*"Cafodd y gwaith cefnogi a herio ei bylu. Er enghraifft, mae cyllid yr UE ar gyfer cyflogadwyedd yn gosod cyfrifoldeb ar yr unigolyn yn hytrach nag ar ddsbarthiad gweithgarwch economaidd. I'r perwyl hwn, collwyd yr her."*

Cyfarwyddwr, Welsh Think Tank

4.4. Mae asesiad UKRCS, gan gynnwys ein gwerthusiad o Gronfa Cynhwysiant Gweithredol CGGC, yn awgrymu bod gwaith herio'r sector gwirfoddol wedi'i fireinio gan yr angen i ymgysylltu mewn modd adeiladol (yn hytrach nag aros y tu allan a 'thaflu brics i mewn'). Er mwyn cydweithio, roedd yn rhaid cyfaddawdu. Ond yn aml, roedd gan fentrau cyflogadwyedd, er enghraifft, waeth a oeddent wedi'u cyllido gan yr UE neu beidio, wendidau cynhenid o ran methu â chydweithio gyda'r cyflenwad llafur posibl ac ochr y galwadau (h.y. pan sgiliau a chymwyseddau sydd eu hangen i gyd-fynd ag anghenion y byd go iawn), neu fethu â mynd ati mewn modd digon hirdymor i ymdrin â thueddiadau economaidd er mwyn sicrhau nad cyfranogwyr heddiw yw cleifion yfory. Y cwestiwn felly yw a yw hyn yn wendid yng Nghronfeydd yr UE, neu fel arall, yn wendid o ran uniongrededd polisi ac ymarfer sylfaenol.

## **Nodweddion Llais y Sector Gwirfoddol.**

4.5. Roedd agweddau allweddol ar waith dylanwadu'r sector gwirfoddol yn ymwneud ag:

- a. Arweinyddiaeth Genedlaethol CGGC a'i allu i siarad dros ac ar ran y sector yn genedlaethol.
- b. Ffurio Fforwm Ewropeaidd y Trydydd Sector yn 2011 er mwyn dwyn arweinwyr trydydd sector a chyd-noddwyr prosiectau ESF a ERDF ynghyd i rannu gwybodaeth ac arferion da. Er i'r aelodaeth newid dros amser, ni newidiodd yr amcanion hyn.

- c. CGGC a mudiadau eraill o'r sector gwirfoddol yn gweithredu fel llais o ran yr hyn sy'n gweithio, ac yn mynegi rhwystrau ac anawsterau, yn enwedig mewn perthynas â chynghori ar ofynion gweinyddol a chymhlethdodau.
- d. Presenoldeb CGGC a mudiadau eraill o'r sector gwirfoddol ar rai byrddau, paneli a chyrff trosolwg a chynghori allweddol eraill (gweler hefyd Adran 2).
- e. CGGC fel darparwr cymorth sector yn cynnig cymorth ymarferol i fudiadau gwirfoddol sy'n dymuno ymhél â'r cronfeydd strwythurol, yn gweithredu fel cynghorwr 'realistig' i ddarpar ymgeiswyr ac yn cynnig help llaw i fynd i'r afael â'r gofynion gweinyddol a oedd ynghlwm â'r ESIFs.
- f. CGGC fel Corff Ymbarél neu Gyfryngol er mwyn galluogi mudiadau llai'r sector gwirfoddol, na allai fod wedi bod yn gymwys fel arall, i elwa ac yn ei dro, helpu i ymestyn cyrhaeddiad y Cyllid a ddefnyddiwyd – er enghraifft – gan 'unigolion a grwpiau anodd eu cyrraedd' (neu'r rheini nas clywir yn aml fel y'u disgrifiwyd gan aelod o Banel Anweithgarwch Economaidd CGGC) a allai fod mewn grwpiau cleient mudiadau arbenigol neu leol yn y sector gwirfoddol, ond sydd ymhell y tu hwnt i afael mudiadau neu systemau mwy sefydliadol.
- g. Arbenigedd arbenigol perthnasol, er enghraifft, Chwarae Teg mewn perthynas â chydaddoldebau a rôl merched, gan fod yn ddylanwadol o ran gweithredu ar lawr gwlad ac wrth ffurfio polisïau.
- h. Yn aml, byddai CGGC yn arwain gweithgarwch i hwyluso cymorth rhwydweithio fel y gallai CGGC a mudiadau mwy o faint y sector gwirfoddol rannu gwybodaeth a chefnogi'r sector, ynghyd ag ysgogi cydweithio rhwng mudiadau. Er enghraifft, bu CGGC yn gweithio gyda 'Workways', sef prosiect dan arweiniad yr awdurdod lleol a gyllidwyd gan yr ESF, yn Ne-orllewin Cymru i greu systemau atgyfeirio rhwng prosiectau (gan gynnwys Prosiect Cynhwysiant Gweithredol CGGC) i gynorthwyo pobl i agosáu at neu gamu i mewn i gyflogaeth.

4.6. Nid oes data cyson ar gael i wneud dadansoddiad llawn o gyfraniadau'r sector gwirfoddol lle nad mudiadau oedd derbynyddion uniongyrchol y cyllid, ond ymhlith pethau eraill, bu'r sector yn rhan o raglenni ehangach fel:

- a. Partner atgyfeirio a nodwyd mewn damcaniaethau newid (un o blith llawer o bartneriaid atgyfeirio, e.e. Cymunedau am Waith).
- b. Darparwr hyfforddiant a/neu gyflogwr (e.e. rhaglen Brentisiaethau, Hyfforddeiaethau, Cronfa Cynhwysiant Gweithredol).
- c. Rhywle y mae staff neu gynghorwyr rhaglen ehangach yn mynd i gyrraedd ac ymhel â chyfranogwyr (e.e. PACE).

## **Nodweddion Gweithgarwch y Sector Gwirfoddol**

### **Ffocws**

4.7. Ar y dechrau, cafodd rhai gweithgareddau yn y gymuned eu cyllido drwy Raglenni 2000 – 2006. Ond wrth i'r ESIFs ddatblygu mewn cyfnodau cyllido dilynol, gan fynd ati'n fwy strategol a chyllido llai o lawer o brosiectau, newidiodd patrwm ymgysylltu'r sector gwirfoddol fel a ganlyn:

- a. Canolbwyntiodd yr ESF yn eang ar gyflogadwyedd, er iddo gael ei ddiffinio'n fras fel cymorth i agosau at waith yn ogystal â chael gwaith, ac felly roedd y ffocws ar sgiliau meddal fel magu hyder yn ogystal â gweithgarwch penodol a oedd yn ymwneud â gwaith.
- b. Cymorth ERDF ar gyfer mentrau cymunedol a chymdeithasol a chwmnïau cydweithredol.
- c. Cymorth ERDF ar gyfer rhai prosiectau ynni cymunedol/bach a berodd i fod yn amcan heriol am resymau y tu hwnt i Gronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewrop, fel gofynion cynllunio ac ymarferoldeb ar gyfer cysylltu â'r grid.
- d. Cyllid y Rhaglen Datblygu Gwledig (e.e., LEADER mewn ardaloedd gwledig â llai o boblogaeth fel Canolbarth Cymru).

*“Mae prosiectau amgylcheddol wedi bod yn un maes y mae'r UE wedi cael dylanwad positif iawn arno o ran cefnogi ac ysgogi'r sector gwirfoddol i weithredu. Cafodd cyllid yr UE effaith fawr ar gapasiti a gallu'r sector gwirfoddol mewn perthynas â'r amgylchedd, gan gynnwys drwy ddarparu cyllid craidd a wnaeth, yn ei dro, hwyluso pobl eraill i gyflwyno cais.”*

Jane Davidson Cadeirydd – Sero Net Cymru 2035 a chyn Weinidog Addysg Llywodraeth Cymru ac yna Gweinidog yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd.

### **Astudiaeth Achos: ERDF: Cwmni cydweithredol Awel**

4.8. Mae Awel yn Gymdeithas Budd Cymunedol sy'n berchen ar, ac yn rhedeg dau dyrbin gwynt Enercon 2.35MW ar Fynydd y Gwrhyd, 20 milltir i'r gogledd o Abertawe. Mae'r tyrbinau hyn yn cynhyrchu ynni carbon isel, glân – oddeutu 12,558 MWh o ynni glân pob blwyddyn, sy'n ddigon i gyflenwi dros 2,500 o gartrefi. Mae'r fferm wynt yn dwyn elw ac wedi cefnogi'r gwaith o brynu cyfleusterau cymunedol. Mae hefyd wedi cyllido cwmni cydweithredol Egni, sy'n datblygu ynni solar ar draws 88 o safleoedd hyn yma.

4.9. Roedd y fferm wynt yn dibynnu'n fawr ar chwistrelliad cynnar o gyllid ESIF er mwyn cynnal Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol i gefnogi'r gwaith hollbwysig i gael caniatâd cynllunio a'r cytundebau tir hanfodol. Yn gyffredinol, gwnaeth y prosiect hefyd ddenu cymysgedd o gyllid dros nifer o flynyddoedd gan yr hen Adran Masnach a Diwydiant, Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo ac ystod o gyllidwyr eraill. Mae'r dilyniant cyllid hwn gan ffynonellau amrywiol, gan gynnwys cyllid yr UE, yn thema gyffredin ymysg prosiectau amgylcheddol ac ynni cymunedol.

4.10. Derbyniwyd y £150,000 o gyllid yr UE ar ddechrau'r ganrif, a chafodd y prosiect gryn anhawster cael caniatâd cynllunio am rai blynyddoedd, gan ddechrau ar y gwaith



adeiladu o'r diwedd yn 2016. Bu cymorth yr UE yn hollbwysig drwy gydol y prosiect oherwydd parhaodd y gwaith yr oedd wedi'i gyllido i fod yn garreg sylfaen graidd ar gyfer y prosiect.

4.11. Yn fwy diweddar, roedd arweinwyr prosiectau wedi'u siomi gan ddull WEFO ynghylch cynlluniau ynni cymunedol, a dydyn nhw ddim wir yn ystyried cyllid yr UE yn ffafriol. Fodd bynnag mae'r cymorth hanfodol a gwerth chweil a dderbyniwyd ar gychwyn eu prosiect ynghyd â chymorth cyffredinol a chadarn yr UE gyda pholisïau ar gyfer ynni cymunedol / dinasol yn parhau i fod yn rhan o'u hanes a'u llwyddiant.

### **Sut gwnaeth y Sector Gwirfoddol gymryd rhan mewn Prosiectau?**

4.12. Gwnaeth mudiadau'r sector gwirfoddol gymryd rhan mewn prosiectau wedi'u cyllido mewn tair ffordd eang:

- a. Gwnaeth rhai mudiadau mwy o faint gymryd rhan yn uniongyrchol gan gynnwys CWMPAS, Chwarae Teg ac ELITE. Yn yr achosion hyn, roedd gan y mudiadau'r gallu i fynd i'r afael â gofynion y Gronfa (neu mewn sefyllfa i ddatblygu'r gallu hwnnw) ac roedd ganddynt, yn gyffredinol, ddiben craidd sefydliadol a oedd yn gweddu'n amlwg ag amcanion y Gronfa.
- b. Gwnaeth prosiectau Ymbarél/y Corff Cyfryngol alluogi mudiadau llai, na fyddai fel arall â'r capasiti neu'n rhy fach i gymryd rhan yn uniongyrchol, i gymryd rhan a chyfrannu.
- c. Bu partneru â phobl eraill a oedd yn arwain prosiectau (naill ai o fewn y sector gwirfoddol neu ar draws sectorau) yn llwybr arall. Nid yw'r dystiolaeth mor argyhoeddiadol i farnu effeithiolrwydd cyfanredol hyn o ran arferion a chanlyniadau. Mae tystiolaeth bod rhai prosiectau wedi cydweithredu a chydweithio'n effeithiol, ond mae hefyd tystiolaeth o gystadleuaeth annymunol neu fethiant i weithio ar draws sectorau. Gwnaeth ein cyfweiliadau hefyd amlygu gwahaniaethau rhwng rhanbarthau. Er enghraifft, ymddengys y bu dull mwy cydweithredol ar waith yng Nghanolbarth Cymru mewn ardaloedd sydd gan fwyaf yn wledig a chyda llai o boblogaeth yn sgil prinder o adnoddau sefydliadol cyfanredol. Gwnaeth hyn olygu bod angen i fudiadau ddod ynghyd a rhannu adnoddau.

### **A wnaeth Gweithgarwch y Sector Gwirfoddol Ymestyn 'Cyrhaeddiad' Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewrop?**

4.13. Gan ystyried mai cyfran gymharol fach o adnoddau oedd gan y sector gwirfoddol yng Nghymru (gweler Adran 3), dengys y dystiolaeth o werthusiadau'r prosiectau (gan gynnwys yr un ar Gronfa Cynhwysiant Gweithredol CGGC) bod camau gweithredu'r sector gwirfoddol wedi:

- a. Ei gwneud hi'n bosibl i gyrraedd grwpiau, unigolion a gweithgareddau economaidd y byddai rhaglenni 'prif ffrwd' a mudiadau sefydliadol mwy o faint wedi cael anhawster eu cyrraedd ar draws yr ESF a'r ERDF, er enghraifft, mewn



perthynas â chefnogi mentrau cymunedol a chymdeithasol a chwmnïau cydweithredol.

- b. Galluogi mudiadau ag arbenigedd a gwybodaeth am grwpiau cleient, cymunedau neu fusnesau perthnasol penodol, a'r rheini mewn cysylltiad â'r rhain, i gael cyllid gan gynnwys pan oedd mudiadau'r sector gwirfoddol yn weladwy, yn ddibynadwy, yn gysylltiedig â chymunedau lleol ac yn deall y grŵp targed.
- c. Pan oeddent ar eu gorau, gwnaethant hefyd feithrin arloesedd a sicrhau buddion economaidd o gyfleoedd am gyflogadwyedd a thwf busnes llai o faint, arbennig neu leol a wnaeth hefyd gyflwyno manteision o ran cefnogi'r uchelgais i ddatblygu economi sylfaenol.

## **A wnaeth y dull tri thraean weithio?**

4.14. Yn ôl y dystiolaeth ar y gwaith hwn, rhoddwn ymateb amodol ond positif o ran cysylltiad y sector gwirfoddol â'r trefniant 'tri thraean' ar sail y canlynol:

- a. Mynegodd amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn glir a bu'r ffyrdd o weithio'n bwysig i gyflawni'r amcanion hyn.
- b. Rhoddodd lais i'r sector gwirfoddol a chaniatáu iddo fod yn ddylanwadol mewn ffyrdd a oedd yn cyd-fynd â pholisïau Llywodraeth Cymru sy'n cydnabod gwerth y sector.
- c. Gwnaeth ryddhau o leiaf rhywfaint o allu'r sector gwirfoddol i gyfrannu at gwmpas eang amcanion yr ESIFs yng Nghymru.

4.15. Roedd yr amheuan yn ymwneud â'r canlynol:

- a. Tystiolaeth amrywiol o gydweithrediad a chydweithio buddiol go iawn rhwng mudiadau a sectorau. Er i hyn wella dros y tri chyfnod cyllido, parhaodd i fod yn bell iawn o'r nod o 'gydgysylltu', un o'r prif bethau y dyheuir amdano ond na chaiff ei gyflawni'n aml ym mholisïau cyhoeddus Cymru a'r DU ehangach.
- b. Cyfyngiadau ymarferol ar allu'r sector gwirfoddol i ymgysylltu, yn enwedig o ran capasiti sefydliadol a gweinyddol ac yn sgil mabwysiadu dull mwy strategol o ddefnyddio'r Gronfa. Fodd bynnag, mae Adran 5 isod yn disgrifio sut gwnaeth defnyddio cyrff ymbarél a phennu CGGC fel Corff Cyfryngol ar gyfer cyfnod cyllido 2014 - 2020 leddfu'r cyfyngiadau hyn.

4.16. Mae'r problemau ehangach a ddeilliodd o'r dull tri thraean y tu hwnt i gwmpas yr astudiaeth hon, ond, fel enghraifft, nodwn y farn a fynegwyd gan y rheini a gafodd eu cyfweld bod y sector gwirfoddol wedi'i alluogi i chwarae rhan arwyddocaol a dylanwadol, a gellir dadlau na wynebodd cymaint o heriau â'r sector preifat yng Nghymru, lle gwnaeth y cyfuniad o ofynion Cymorth Gwladwriaethol yr Undeb Ewropeaidd ynghyd â thra-phwysigrwydd Mentrau Bach a Chanolig yng Nghymru lesteirio'r ymgysylltiad.

*“Cafodd y sector gwirfoddol ei alluogi drwy ymgysylltu â'r cronfeydd strwythurol. Cynyddodd capasiti ac arbenigedd cyrff gwirfoddol mewn ymateb i gyfleoedd. Bu anfanteision yn sgil natur amrywiol y cyllid... byddai arbenigedd yn cael ei ddatblygu ond yna'n cael ei gollu'n rhannol. Ond ar y cyfan, mae'r sector a'r canlyniadau y maen nhw wedi'u cyflawni yn gryfach o ganlyniad. Gwnaeth y ddisgyblaeth a'r pwyslais ar ganlyniadau y gofynnwyd amdano gan yr UE gyfrannu at hynny.”*

Peter Davies cyn-Gadeirydd CGGC

## **Effeithiau mwy hirdymor y Sector Gwirfoddol**

4.17. Mae'r darlun yn un cymysg. Wrth i'r Cronfeydd ddod i ben, mae ansicrwydd a llai o adnoddau yn parhau, sy'n arwain at leihau gwasanaethau a chael llai o gapasiti i gynnal gwaith a gyllid drwy'r ESIFs yn y sector gwirfoddol yng Nghymru. Efallai bod y mudiadau hynny yn y sector gwirfoddol a ddefnyddiodd y Cronfeydd i gynyddu eu gwaith yn sylweddol yn lleihau eu gwasanaethau, ond maen nhw:

- a. Wedi meithrin capasiti i lywio a rheoli cynlluniau cyllido a phrosesau swyddogol. Mewn rhai achosion mae hyn wedi arwain at fudiadau mwy effeithlon ac effeithiol sy'n ddigon gwydn a hyblyg i allu addasu.
- b. Mae rhai wrthi'n sefydlu – neu wedi sefydlu – modelau amgen ar gyfer cynnal o leiaf agweddau o weithgarwch a gyllidwyd yn flaenorol, er enghraifft, drwy sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru neu drwy ddatblygu modelau busnes a threfniadau cyllido amgen.

4.18. Mae'r sector wedi ennill llawer o brofiad, gwybodaeth ac addysg a chwestiynir i ba raddau y bydd modd cynnal hyn a sicrhau eu bod yn hygyrch yn y dyfodol gyda'r risg o ail-adrodd gwaith a ddaw yn sgil hyn yn y dyfodol.

*“Ceisiodd cyllid yr UE gyflawni amcanion a chanlyniadau penodol, gan gynnwys agweddau o ymddygiad sefydliadol, ac mae hyn wedi arallgyfeirio gweithgareddau nifer o gyrff gwirfoddol pwysig canolig eu maint yng Nghymru. Daeth rhai o'r rhain yn fedrus iawn mewn cyrchu cyllid yr UE, a daeth rhai'n ddibynnol iawn arno.”*

Cyfarwyddwr, Welsh Think Tank

## **Astudiaeth Achos (ERDF): Buddsoddiad Cymdeithasol Cymru**

4.19. Gwnaeth cyfnodau cyllido olynol ERDF gefnogi buddsoddiad mewn mentrau cymdeithasol. Ni weithiodd y rhesymeg ynghlwm â hyn yn y farchnad oherwydd roedd mentrau o'r fath – bryd hynny a nawr – yn cael anhawster cael gafael ar ffynonellau cyllid prif ffrwd: nid yw'r modelau busnes sydd fel arfer yn cael eu mabwysiadu, fel Cymdeithasau Budd Cymunedol, yn cael eu deall yn dda gan fanciau prif ffrwd ac yn aml, ychydig iawn o elw a wneir.

4.20. Cafodd y rhesymeg hon ei dwysau gan argyfwng ariannol 2008/09 gan arwain banciau i ddewis buddsoddwyr a oedd yn llai o risg a gosod meini prawf llymach ar gyfer benthyca.

4.21. O ganlyniad, sefydlodd CGGC Buddsoddiad Cymdeithasol Cymru gan gydweithio ag arbenigwyr y sector (ac yn enwedig gyda mudiad a elwir yn CWMPAS bellach) a chyda Banc Datblygu Cymru.

4.22. Sicrhawyd cyllid drwy'r Gronfa Buddsoddi Cymunedol rhwng 2006 a 2015 dros ddau gyfnod cyllido ERDF ac yna drwy'r Gronfa Tyfu Busnesau Cymdeithasol o 2016 ymlaen. Drwy'r holl gyfnod, mae CGGC wedi ceisio sicrhau ffynonellau lluosog o gyllid, ond cyllid cynnar ERDF oedd yn allweddol i roi'r hwb angenrheidiol hwnnw.

4.23. Mae hefyd yn werth nodi bod Buddsoddiad Cymdeithasol Cymru wedi'i arwain yn CGGC gan rywun ag arbenigedd bancio maith sy'n ffactor pwysig yn llwyddiant a hirhoedledd y gwaith.

4.24. Er i'r manylion ddatblygu a newid, y diben hanfodol oedd cynnig cyllid ar raddfa gymharol fach, fel sydd ei angen fel arfer ar fentrau cymdeithasol, drwy gymysgedd o grant a chymorth ad-daladwy ('cyllid cyfunol') er mwyn i fusnesau cymdeithasol allu datblygu a chreu swyddi, a'r un yw'r diben o hyd.

4.25. Serch heriau amlwg, mae Buddsoddiad Cymdeithasol Cymru wedi datblygu ffynhonnell cyllid y gellir ei ailgylchu ac mae'n parhau i fynd ati'n greadigol i sefydlu ffynonellau ychwanegol o gyllid. O ganlyniad, rydym yn hyderus y bydd hyn yn gynaliadwy, gan ystyried yr angen parhaus, yn anad dim gan fod y mentrau hyn yn ategu uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer yr Economi Sylfaenol.

## **Effeithiau COVID-19**

4.26. Yn gyffredinol, mae'n anodd asesu effeithiau hirdymor penodol COVID-19 ar Gronfeydd Strwythurol Ewrop oherwydd tarodd COVID-19 'yn 'hwyr', wrth i raglenni 2014 – 2020 ddirwyn i ben. Felly, mae effaith y newidiadau i'r trefniadau cyllido ar ôl yr ESIFs yn gyfoes ag effeithiau COVID-19. Fodd bynnag:

- a. Yr effaith fwyaf a gafodd COVID-19 oedd ar wariant a chanlyniadau a drefnwyd, a bu'n rhaid ail-raglennu'n sylweddol er mwyn adlewyrchu'r lefel uchel o amhariad a ddaeth yn sgil y pandemig.
- b. Y tu hwnt i hyn, roedd yr effeithiau ar brosiectau unigol y sector gwirfoddol yn amrywio'n fawr iawn, yn dibynnu ar natur y gweithgaredd a gyllidwyd a'r potensial i'w addasu, ynghyd â gallu'r mudiad dan sylw i addasu.
- c. Felly, bu COVID-19 yn aflonyddgar am resymau amlwg fel y cyfnod clo, unigolion a oedd angen gwarchod eu hunain, gallu mudiadau i ymateb a'r newidiadau i ffyrdd o weithio y bu'n rhaid eu gwneud yn sgil y sefyllfa.
- d. Felly, ac eithrio'r gwaith radical o aildrefnu prosiectau a rhaglenni a gyllidwyd, y prif effaith oedd y ffyrdd amrywiol yr aeth y sector gwirfoddol ati i addasu'r ddarpariaeth a'r canlyniadau a oedd ynghlwm â chyflawni hynny'n effeithiol – neu beidio.

- e. Yn y cyfnod mwy hirdymor, mae canlyniadau'r pandemig yn hybu mudiadau i newid eu ffyrdd o weithio. Mae'r effaith benodol ar yr ESIFs wedi'i chysgodi gan ymateb y sector gwirfoddol i'r gostyngiad mewn cyllid sydd ar gael, a'r llai o adnoddau sydd ar gael o ran cyllid a pholisi yn dilyn y newidiadau newydd ar ôl Brexit.

### **Enghraifft o Effeithiau COVID-19: Gwerthusiad Cronfa Cynhwysiant Gweithredol 2022**

Nid oes 'adnodd mesur' i gymharu'r perfformiad, ond parhaodd y Gronfa Cynhwysiant Gweithredol (AIF) i ddal ati mewn amgylchiadau heriol, a dysgwyd gwersi trosglwyddadwy o ran:

- a. Hyblygrwydd gwerthfawr WEFO/CGGC mewn lleihau'r gofynion gweinyddol a chyfathrebiad ac ymgysylltiad gweithredol staff CGGC â chyrrff a gyllidwyd.
- b. Gwerth gwydnwch, hyblygrwydd a'r gallu i addasu: roedd gwahaniaethau mawr rhwng y rheini a dderbyniodd grantiau: fel arfer, mudiadau gwydn a oedd yn ymrwymedig i'w cleientiaid ac yn agos atynt oedd y rhai mwyaf llwyddiannus o ran addasu a chynnal cymorth.
- c. Deall yr effeithiau tebygol ar bobl sy'n agored i niwed a chynnal cymorth drwy addasu. Gwnaeth cymorth llwyddiannus fabwysiadu ffyrdd newydd o weithio ond eto, daliwyd ati i sicrhau pobl a chadw mewn cysylltiad â nhw, gan fynd i'r afael â lles yn ogystal â chyflogadwyedd.
- d. O bryd i'w gilydd, byddai gweithio'n rhithiol yn cynnig cipolwg ar amodau byw a thlodi ehangach cyfranogwyr, gan arwain ar brydiau at fwy o gymorth (e.e., help i gael mynediad at fanciau bwyd neu ddillad).
- e. Gwnaeth mudiadau llwyddiannus fynd i'r afael â thlodi a llythrennedd digidol, gan gyflwyno buddion sy'n debygol o ymestyn y tu hwnt i'r pandemig.
- f. Mewn rhai achosion, gwnaeth ymgysylltu'n rhithiol arwain at fwy o gyfranogiad, e.e., gyda theluoedd yn hytrach nag unigolion, ac mewn rhai achosion, gwnaeth hyn alluogi pobl na fyddai siŵr o fod yn ymgysylltu wyneb yn wyneb i gymryd rhan (e.e., drwy ddisgwyliadau ac arferion diwylliannol).
- g. Cymorth a gynorthwyodd cyfranogwyr i helpu pobl eraill mewn argyfwng.
- h. Mae'r effeithiau economaidd posibl yn parhau i ddod i'r golwg, gydag effeithiau posibl ar ysgogiad cyfranogwyr (e.e., wrth chwilio am waith) a newid cyflymach mewn marchnadoedd gwaith, ond gyda chyfleoedd newydd gan gynnwys gwirfoddoli.

Mae cyfyngiadau COVID-19 wedi hybu neu gyflymu newidiadau o ran sut mae'r gymdeithas yn gweithredu: ni wyddys i ba raddau y bydd cymdeithas yn dychwelyd i'r hen ffyrdd ar ôl y pandemig. Fodd bynnag, un canlyniad tebygol yw y bydd ffyrdd hybrid o weithio yn cael eu mabwysiadu a fydd yn ailgyflwyno dulliau wyneb yn wyneb, ond bydd dulliau a ffyrdd o weithio digidol yn cael eu hintegreiddio i raddau llawer mwy na chyn COVID-19.

## **Adran 5. Rôl a Gwerth Cymorth Technegol / Model y Corff Cyfryngol**

5.1. Datblygodd y sector gwirfoddol yng Nghymru enw rhagorol mewn perthynas â'r ESIFs o ran hyder y swyddogion yn y Cymorth Technegol a gafodd ei gyrchu a'i gyflwyno gan y sector gwirfoddol o'r dyddiau cynnar. Yn y pen draw, arweiniodd hyn i ddyfarnu statws Corff Cyfryngol i CGGC. Gwnaeth hyn ganiatáu i drefniadau grant cystadleuol gael eu cyflwyno i'r sector gwirfoddol.

5.2. Mae'r Adran hon yn edrych ar y ddwy agwedd a berodd i'r sector gwirfoddol ddod yn rhan annatod o seilwaith yr ESIF.

### **Rôl a Gwerth Cymorth Technegol**

5.3. Roedd Cymorth Technegol yn gysyniad dwyffordd i annog pobl i gymryd rhan, ond hefyd i gynnig modd o sicrhau ceisiadau o safon a oedd yn 'ffitio' â gofynion y Gronfa. Cafodd ei gyllido fel elfen o'r ESIFs. Yn gryno, gwnaeth cymorth y sector gwirfoddol drwy'r Cymorth Technegol ddatblygu fel a ganlyn:

- a. Cafodd Uned Cymorth y Sector Gwirfoddol (ar gyfer cyfnod cyllido 2000 – 2006) ei sefydlu a'i chyllido yn 2001 fel prosiect cymorth gan CGGC i helpu i sicrhau bod Cyllid Ewropeaidd, a gwneud cais amdano, yn hygyrch i'r sector gwirfoddol. Rhoddodd yr uned hon gyngor ac arweiniad i fudiadau, ynghyd â hyfforddiant a deunydd gwybodaeth y gallai'r holl sector fanteisio arnynt.
- b. Yn 2008, sefydlodd CGGC Tîm Ewropeaidd y Trydydd Sector (3-SET), eto, i roi gwybodaeth, cyngor a hyfforddiant i'r sector gwirfoddol er mwyn cefnogi mudiadau i gael gafael ar gyllid strwythurol Ewrop. Yn ystod cyfnod cyllido 2007 – 2013, rhoddodd 3-SET gymorth i fwy na 100 o wahanol brosiectau arfaethedig.
- c. Yn ystod cyfnod cyllido 2014 – 2020, rhagwelir y bydd cyfanswm cost 3-SET (hyd at 2022/23) yn £2,526,984 gyda £1,779,368 wedi'i neilltuo o Gronfeydd Strwythurol yr UE. Yn ystod y cyfnod rhaglen hwn, amcanion 3-SET oedd:
  - i. Codi ymwybyddiaeth o ESIFs 2014-2020 a ffrydiau eraill o gyllid yr UE yng Nghymru a hyrwyddo eu heffaith.
  - ii. Cynyddu cyfraniad y trydydd sector at y gwaith o ddylunio a gweithredu rhaglenni 2014-2020 ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol.
  - iii. Gwella'r cyfraddau cydymffurfio a lleihau'r risgiau ynghlwm â chyflawni prosiectau trydydd sector.

5.4. Dylid hefyd nodi y cafodd Timau Ymgysylltu Rhanbarthol hefyd eu sefydlu a'u cyllido drwy Gymorth Technegol a gwnaethant chwarae rôl bwysig mewn cynnig trosolwg ar draws sectorau a gwirio ceisiadau'n rhanbarthol er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â blaenoriaethau ac anghenion rhanbarthol. Canfu gwerthusiad a gomisiynwyd gan WFO

bod “cydberthynas waith adeiladol rhwng Timau Ymgysylltu Rhanbarthol a WEFO”<sup>6</sup>. Canfu'r gwerthusiad hefyd bod prif gyflawniadau'r Timau Ymgysylltu Rhanbarthol yn ymwneud ag ymgysylltu, cyfathrebu a rhwydweithio. Awgryma gwaith RCS hefyd bod cydberthynas waith gadarn ag CGGC.

### **Astudiaeth Achos: Asesu Gwerth Cyfraniad 3-SET**

5.5. Yn gyffredinol, rydym yn adleisio Gwerthusiad Tîm Ewropeaidd y Trydydd Sector (3-SET)<sup>7</sup> a ddaeth i'r casgliad:

*“Awgryma'r dystiolaeth a'r data yr edrychwyd arnynt ar gyfer yr adroddiad hwn bod 3-SET wedi bod, ac yn debygol o barhau i fod yn wasanaeth effeithiol, dylanwadol, gwerthfawr a mawr ei angen ar gyfer y trydydd sector yng Nghymru. Yn ogystal â hyn, gellid honni mai ei gyfraniad yn ystod y blynyddoedd olaf fydd yr un mwyaf gwerthfawr yn y dyfodol, o ran paratoi mudiadau i gael mynediad at strwythurau cyllid amgen ac o ran lloio dros y sector a'i fynediad at strwythurau buddsoddi amgen ar lefel strategol a pholisi.”*

5.6. Mae ein canfyddiadau hefyd yn awgrymu y bu angen llai o gymorth penodol ar fudiadau a ddatblygodd gapasiti 'mewnol', ond roeddent yn parhau i werthfawrogi llais cenedlaethol CGGC fel partner a chefnogwr wrth weithio gyda WEFO pan fyddai problemau neu rwystrau cyfunol yn codi o ran gweinyddiaeth a gofynion y Gronfa.

5.7. Fodd bynnag, nid oedd rhyw lawer o fudiadau o'r fath, ac i fudiadau'r sector gwirfoddol yn gyffredinol, yn enwedig rhai llai, bu cyflwyno help a chefnogaeth i gael gafael ar gyllid, ym mha bynnag fodd, yn werthfawr ac o gymorth i gyflawni canlyniadau'n effeithiol yn ogystal â sicrhau gwerth am arian i'r corff cyllido.

5.8. Mae adroddiadau gwerthuso unigol yn adleisio'r adborth positif hwn o ran cymorth CGGC drwy gydol y 3 chyfnod cyllido, fel enghraifft:

*“Nododd rhai o'r rheini a gafodd eu cyfweld fod y cymorth wedi creu effeithiau positif hirhoedlog gan gynnwys a) gallu cael mynediad at y cyllid yn y lle cyntaf, b) gwneud defnydd llawn o'r cyllid yng ngweithgareddau'r prosiect ac c) dealltwriaeth drylwyr o'r rhaglenni cyllid Ewropeaidd<sup>8</sup>.”*

*“O'r cam ymgeisio ymlaen, mae 3-SET wedi cyfrannu a rhoi cymorth ac arweiniad. Roedden nhw bob amser yno i roi arweiniad a chynghor pan oedd angen. Fel gydag [addasu i COVID-19], o ran y broses hawlio, cawson ni hyfforddiant ac arweiniad ar sut i ddefnyddio [System Data'r Prosiect] lle rydyn ni'n cofnodi'r holl wybodaeth am y cyfranogwyr a'u cynnydd.”<sup>9</sup>*

---


<sup>6</sup> Gwerthusiad WEFO o'r Timau Ymgysylltu Rhanbarthol. Rhif Ymchwil Cymdeithasol 38/2020 Cyhoeddwyd 04/06/2020: Cynhaliwyd yr Ymchwil gan OB3 Research, ar y cyd â Hatch Regeneris a Dateb  
<sup>7</sup> Gwerthusiad WEFO o Dîm Ewropeaidd y Trydydd Sector (3-SET). Rhif Ymchwil Cymdeithasol 51/2021 Cyhoeddwyd 20/07/2021 Cynhaliwyd yr Ymchwil gan Wavehill.

<sup>8</sup> Gwerthusiad o Uned Gymorth y Sector Gwirfoddol, Mawrth 2008, CM International Ltd

<sup>9</sup> 2020 Cyfweiliad Buddiolwyr: Gwerthusiad WEFO o Dîm Ewropeaidd y Trydydd Sector (3-SET). Rhif Ymchwil Cymdeithasol 51/2021 Cyhoeddwyd 20/07/2021 Ymchwil wedi'i gynnal gan Wavehill.

5.9. Cyhoeddodd WEFO werthusiad o 3-SET yn 2021 (gan ymdrin â chyfnod cyllido 2014 – 2020). Roedd hwn yn cynnwys edrych ar foddhad mudiadau gyda'r cymorth (a ganfuwyd drwy gyfnewid â 52 o Fuddiolwyr). Ceir crynodeb o'r canlyniadau yn y siart isod.

**Siart 4: Asesiad Mudiadau Buddiolwyr o'r Buddion a ddeilliodd o gymorth 3-SET (Sgôr o 1 = ychydig iawn/Sgôr o 10 = llawer iawn).**



*“Mae'r sector gwirfoddol yn gyfuniad o rannau yn ei hun, lle nad oes angen corff cydlynu ar elusennau cenedlaethol, mae'r rhai canolig yn cydweithio'n agosach ag CGGC, ac yna mae gwir angen y cyngor technegol a'r cymorth cyfryngol ar y nifer di-ri o fudiadau llai.”*

Cyfarwyddwr, Welsh Think Tank

**Cyrff Ymbarél / Model y Corff Cyfryngol**

5.10. Penodwyd CGGC fel Corff Cyfryngol o dan raglen 2014-2020: i gydnabod ei allu i reoli a gweinyddu grantiau cystadleuol ar ran WEFO. Gwnaeth hyn gyflwyno elfen bellach o ddatganoli gwaith y Gronfa a ategodd rôl CGGC fel corff ymbarél i ymgysylltu â'r sector gwirfoddol ac yn enwedig mudiadau llai. Roedd y trefniadau hyn hefyd yn bwysig am y rhesymau canlynol:

- a. Arweiniwyd llawer o fentrau gan awdurdodau lleol ac adrannau Llywodraeth Cymru (a sefydliadau academaidd mewn perthynas ag ERDF), gyda'r sector gwirfoddol yn rhan o'r gwaith o gyflawni'r gweithgareddau i raddau amrywiol yn hytrach na bod yn arweinydd prosiect neu bartner.
- b. Awgryma CGGC fod hyn wedi cyd-fynd â chryfderau'r sector o weithio mewn partneriaeth, ond awgryma'r dystiolaeth mai ysbeidiol oedd y cydweithio/cydweithredu hwn mewn gwirionedd, a serch ymdrechion gorau pawb o dan sylw, y canlyniad oedd cydweithio cystadleuol yn hytrach na dymunol.

- c. Gwnaeth rôl uniongyrchol CGGC fel Corff Cyfryngol (ac fel corff ymbarél cyn hynny) lenwi rhai o'r 'bylchau' yn yr amcanion cyflogadwyedd ac o ran cynorthwyo mentrau cymunedol a chymdeithasol a chwmnïau cydweithredol.
- d. Gwnaeth model y Corff Cyfryngol (a'r corff ymbarél cyn hynny) helpu felly i fynd i'r afael â hygyrchedd y Gronfa ar gyfer mudiadau trydydd sector a allai ymgeisio, datblygu a chyflawni prosiectau na fyddai wedi'u hystyried fel arall oherwydd eu maint, hyd neu werth ariannol isel.

*“Er mwyn cynnig rhywfaint o wybodaeth, cysylltiad a chyfathrebu lleol, roedd gan y Porth Ymgysylltu [a arweiniwyd gan CGGC] Gytundeb Lefel Gwasanaeth gyda Chynghorau Gwirfoddol Sirol lleol, ac roedd Ymgynghorwr Lleol o fewn pob un o'r rhain a oedd yn gyfrifol am hyrwyddo ac egluro'r Porth Ymgysylltu i fudiadau cyflenwi. Roedd hyn yn cynnwys dyletswyddau fel rhoi cyngor ar gyflwyno tendrau, targedu grwpiau o gyfranogwyr a helpu pobl i ddeall y broses gaffael.”<sup>10</sup>*

5.11. Wrth gyfweled â chyrrff buddiolwyr yn ystod y gwerthusiad o'r Port Ymgysylltu, cyflwynwyd dyfyniadau fel a ganlyn:

*“Cynyddodd sgiliau ein staff cyflenwi mewn ymdrin ag amrediad ehangach o fuddiolwyr. Mae wedi ein helpu i weithio gyda phobl sy'n bellach o'r farchnad lafur na fydden ni wedi gallu ei wneud fel arfer.”*

*“Mae ein capasiti i gyflwyno cymorth sy'n berthnasol i bobl sy'n arwain at ganlyniadau positif parhaus wedi cynyddu'n aruthrol. Rydyn ni'n fwy parod i groesgyfeirio cymorth a rhwydweithio gyda darparwyr eraill.”*

*“Mae wedi helpu i sefydlu ein mudiad, ac wedi golygu ein bod wedi gallu helpu'r gyfranogwyr yn sylweddol a mireinio ein cynnig. Rydyn ni'n llawer mwy proffesiynol; mae gennym ni fwy o ddealltwriaeth o brosesau caffael a monitro ac rydyn ni'n fudiad mwy effeithlon ac effeithiol. Mae wedi ein galluogi i fod yn uchelgeisiol a bwrw iddi gydag ein nodau ar gyfer y dyfodol.”*

*“Mae gennym ni'r profiad a'r hyder nawr i fynd am brosiectau UE mawr, mae'n rhoi llawer o le i ni o ran datblygu a thwf.”*

### **Astudiaeth Achos: Dangos Effeithiau'r Sector Gwirfoddol ar gyfer y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd: Y Gronfa Cynhwysiant Gweithredol gydag CGGC fel Corff Cyfryngol**

5.12. Mae'r astudiaeth achos hon yn rhoi cipolwg ar effeithiau a chanlyniadau sydd wedi deillio o'r Gronfa Cynhwysiant Gweithredol (AIF), a gyllidwyd gan ESF a'i reoli gan CGGC. Rhaglen cyflogadwyedd oedd yr AIF a oedd ar waith ledled Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru. Gwnaeth hon dargedu'r bobl hynny a oedd yn anoddach eu cyrraedd (neu'r rheini nas clywir yn aml fel y'u disgrifiwyd gan aelod o Banel CGGC wrth lywio'r

<sup>10</sup> Gwerthusiad Crynhoi Terfynol o'r Prosiect Porth Ymgysylltu o fewn y Maes Cystadleurwydd a Chyflogadwyedd Rhanbarthol, Hydref 2012, Wavehill.



Gronfa Cynhwysiant Gweithredol); y rheini a oedd wedi bod yn ddi-waith ers tro neu'n economaidd anweithgar ac a oedd yn wynebu'r rhwystrau anoddaf i ymuno neu ail-ymuno â'r farchnad lafur.

5.13. Gweithredwyd y Gronfa Cynhwysiant Gweithredol gan CGGC fel Corff Cyfryngol, a bu ar waith o 2015 ymlaen. Cafodd dros 100 o wahanol gyrff buddiolwyr eu cyllido i gefnogi mwy na 23,000 o bobl mewn grwpiau wedi'u targedu. Roedd y rhan helaeth o'r mudiadau hyn yn rhan o'r sector gwirfoddol ac nid-er-elw ac yn ystod camau un a dau yr AIF, y dyfarniad cyfartalog oedd tua £58,700, ac felly'n cyllido llawer o fudiadau na fyddai, o bosibl, wedi bod yn gymwys pe bai nhw wedi ymgeisio'n uniongyrchol yn hytrach na thrwy CGGC. Yn gyffredinol, daeth gwerthusiad y rhaglen<sup>11</sup> i'r casgliad bod:

*“Yr AIF wedi cyrraedd grwpiau ac unigolion a dargedwyd ac wedi ‘gwneud gwahaniaeth’ wrth lwyddo i helpu llawer o bobl a oedd yn wynebu heriau mawr. ..ac... Yn gyffredinol, ychwanegodd yr AIF elfen hyblyg at bolisi cyflogadwyedd Cymru gan sicrhau gwerth mewn galluogi cymorth uwch wedi'i deilwra:*

- a. Lle na allai anghenion gael eu diwallu'n llwyr gan ddulliau mudiadau mwy; ac*
- b. Wrth ymgysylltu â grwpiau sydd fel arfer y tu hwnt i gyrraedd mentrau cyflogadwyedd prif ffrwd.”*

5.14. Gwnaeth y gwerthusiad o'r rhaglen hefyd gynnig asesiad pwylllog o'r Adenillion Cymdeithasol o Fuddsoddi o £3.37 am bob £1 a fuddsoddwyd. Mae'r siartiau isod yn dangos yr effeithiau a gyflawnwyd.


5.15. **Siart 5:** Canlyniadau archwiliedig yr AIF a gyfrannodd at amcanion Cronfa Strwythurol a Buddsoddi Ewrop (gan nodi y byddai ychydig mwy o gyfranogwyr wedi'u cefnogi ar ôl y cofnod data hwn, sef hyd at 31 Mawrth 2022).

---

<sup>11</sup> Gwerthusiad UKRCS o Gronfa Cynhwysiant Gweithredol CGGC a Gyhoeddwyd yn 2022

## Siart 5: Cronfa Cynhwysiant Gweithredol: Deilliannau Ymadael Unigolion

(Ffynhonnell: CGGC o 23096 o Gofnodion)




5.16. **Siart 6:** Hyder a Chymhelliant a Sgiliau Cyflogaeth: mae'r siart canlynol yn dangos canlyniadau sy'n bwysig yn y cyd-destun o helpu pobl sy'n wynebu heriau i agosáu at, a chael gwaith (neu wirfoddoli), ond nid oedd y rhain yn cyfrif fel amcanion ffurfiol Cronfa Strwythurol a Buddsoddi Ewrop. Gofynnwyd y cwestiynau i'r holl gyfranogwyr ar ddechrau'r cymorth AIF ac ar y diwedd. Eto, mae'r data yn deillio o gofnodion cyflawn hyd at 31 Mawrth 2022.

5.17. Gwnaeth y cwestiynau ar **Hyder a Chymhelliant** amrywio o: Sgôr o 1 (isel): *Nid oes gennyf hyder na chymhelliant ac nid wyf yn credu bod unrhyw ffynonellau o gymorth i'm helpu i ddod o hyd i waith neu gyfleoedd dysgu pellach*, hyd at Sgôr o 5 (uchel): *Rydw i'n hyderus ac yn uchel fy nghymhelliant ac yn teimlo fy mod i'n barod i weithio a manteisio ar gyfleoedd dysgu yn y dyfodol.*

5.18. Gwnaeth y cwestiynau ar **Sgiliau Cyflogaeth** amrywio o: Sgôr o 1 (isel) *Nid wyf yn credu bod gennyf unrhyw sgiliau sy'n berthnasol ac a fydd yn fy helpu i ddod o hyd i waith*, hyd at Sgôr o 5: *Credaf fod gennyf yr holl sgiliau perthnasol sydd eu hangen arnaf i gael gwaith.*

### Siart 6: Hyder a Chymhelliant a Sgiliau ar gyfer Gwaith

(Ffynhonnell Cofnodion CGGC 2022)



Un o gyfranogwyr rhaglen Cronfa Cynhwysiant Gweithredol CGGC a gyllidwyd gan ESF a aeth ymlaen i gael ei chyflogi gan y corff buddiolwr a wnaeth ei chefnogi:

*“Mae'r rhaglen hon wedi bod yn ffantastig i mi, ac rwy'n meddwl hynny o waelod calon. Mae wedi bod yn brofiad ardderchog ac hyd yn oed nawr, rwy'n ysu i godi yn y bore a gweld pobl... mae'n siomedig iawn nad yw'r rhaglen yn parhau ac mae'n deimlad trist a reit emosiynol i mi. Os byddwch chi'n mynd ar Brosiect AIF fel wnes i a gwneud eich gorau glas i fanteisio i'r eithaf arni, mae'n wirioneddol gweithio, wir i chi”.*

## Adran 6. Gwersi ac Egwyddorion Cynllunio

6.1. Mae'r adran hon yn awgrymu rhai gwersi ac egwyddorion cynllunio a ddeilliodd o'r profiad o'r ESIF a allai helpu i lywio datblygiadau a threfniadau cyllido yn y dyfodol.

### Yn gyffredinol

6.2. Er y barnwyd fod yr ESIFs yn gymhleth am y rhesymau a roddwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, ar yr ochr orau, un agwedd bwysig oedd eu hyblygrwydd cynhenid wrth gyllido amrywiaeth o ddulliau er mwyn cyflawni'r canlyniadau dymunol. Felly, er gwaethaf y rhwystrau gweinyddol, gwnaethant ganiatáu i ystod eang o fudiadau medrus gymryd rhan a chyfrannu. Enghraifft o hyn yw'r cymorth a roddwyd i fentrau cymunedol a chwmnïau cydweithredol, ynghyd â chyflogadwyedd. Gallai'r cyllid gefnogi dulliau gweithredu mwy prif ffrwd, gan gynorthwyo mudiadau arbenigol gyda'r gallu i arloesi a bod yn hyblyg.

### Rhai Egwyddorion Cynllunio Awgrymedig

- a. **Gosod targedau:** gosod pwyslais ar ansawdd allbynnau a chanlyniadau ac ar yr effaith mwy hirdymor, gyda thargedau rhifiadol sy'n realistig o ran ardaloedd lleol ac o ran amserlenni cyflawni. Dylai ansawdd a chynaliadwyedd canlyniadau fod yn bwysicach na rhifau. Dros gyfnodau cyllido olynol, roedd fframweithiau targedu'r ESIF yn rhy fanwl gywir ar brydiau. Weithiau byddai cymaint o fanylder, fel nad oeddent yn realistig. Mae Tabl 3 isod yn enghraifft o ddogfen gynllunio gynnar y Gronfa Cynhwysiant Gweithredol.

*"Un o agweddau mwyaf trawiadol Amcan 1 y Ddogfen Raglennu Sengl a'r Rhaglen Ategol ddiwygiedig yw maint ac uchelgais meintoliad y targedau"*<sup>12</sup>.

*"Roedd dyluniad y rhaglen yn anghyson, a gormod o fanylder a ffigurau gorfanwl yn y dadansoddiad yn ôl grŵp targed ac ardal ddaearyddol"*<sup>13</sup>

#### Tabl 3: Darn o Gynllun Busnes Cynnar yr AIF

---

<sup>12</sup> 2003: GWERTHUSIAD CANOL TYMOR O'R RHAGLEN AMCAN 1 AR GYFER GORLLEWIN CYMRU A'R CYMOEDD ADRODDIAD TERFYNOL Drafft (ar gyfer PMC): CRG Research Ltd. Ar y cyd â Chanolfan Prifysgol Caerdydd ar gyfer Ymchwil Llywodraeth Leol a Rhanbarthol ac Uned Ymchwil Economi Cymru a Fitzpatrick Associates

<sup>13</sup> 2022 Gwerthusiad o Gronfa Cynhwysiant Gweithredol CGGC: UKRCS

Grwp Targed	Ardal Awdurdod Lleol																	Deilliannau						
	Blaenau Gwent	Pery-bont Ar Ddaur	Caeffili	si'r Gaerfyrddin	Ceredigion	Conwy	si'r Ddinbych	Gwynedd	Ynys Môn	Merthyr Tudful	Castell-nedd Port Talbot	si'r Benfro	Rhondda Cynon Taf	Abertawe	Torfaen	Cyfanswm wnaeth Gymryd Rhai	Cynhwyster Rhannol	Cynhwyster Achraddig Llawn	Hyfforddiant Pellach	Gwirfoddoli	Gwaith	Deilliannau cadranhaol		
Sgiliau Isel	144	55	150	182	18	154	177	73	103	196	269	128	646	308	204	2,806	340	982	675	473	275	2,220		
S1	144	55	150	182	18	154	177	73	103	196	269	128	646	308	204	2,806	340	982	675	473	275	2,220		
S2	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0		
WLHC	99	36	80	99	13	94	105	42	40	102	224	81	361	119	185	1,680	208	634	395	394	227	1,368		
S1	91	30	72	92	13	78	88	25	33	99	214	81	346	112	179	1,554	208	493	382	335	134	1,242		
S2	15	12	17	15	0	33	33	33	13	6	19	0	29	15	12	252	0	141	13	59	94	126		
Ei Gofalwyr	43	8	44	75	4	53	83	17	15	65	86	27	175	36	35	767	72	322	189	109	162	602		
S1	40	5	41	73	4	43	73	14	13	63	83	27	169	36	33	718	72	282	189	98	119	553		
S2	4	6	6	4	0	19	21	6	4	4	6	0	13	0	4	98	0	40	0	11	43	49		
Ei 54+	36	20	49	44	7	84	99	44	50	34	63	46	139	90	44	849	85	340	157	329	181	728		
S1	28	20	33	35	7	75	89	34	41	27	51	46	129	90	34	740	85	238	147	153	44	619		
S2	17	0	31	19	0	19	19	19	19	15	25	0	19	0	19	219	0	101	11	176	137	109		
LT BAME	0	0	1	3	0	1	2	0	0	0	3	0	3	51	0	65	15	15	22	8	8	40		
S1	0	0	1	3	0	1	2	0	0	0	3	0	3	51	0	65	15	15	22	8	8	40		
S2	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0		
Cartrefi Di-waith	93	48	85	130	7	120	144	74	95	188	104	85	356	115	95	1,738	160	1,061	334	254	581	1,455		
S1	83	35	68	118	7	83	110	41	57	171	87	75	314	90	74	1,414	160	594	314	206	219	1,132		
S2	21	25	33	25	0	75	67	67	75	33	33	18	83	50	42	648	0	467	21	47	361	324		
Cyfanswm	415	167	408	534	49	506	609	251	302	586	748	368	1,680	720	563	7,905	880	3,355	1,773	1,566	1,434	6,415		
S1	387	145	364	503	49	433	539	188	247	557	706	359	1,608	688	525	7,297	880	2,605	1,728	1,273	799	5,807		
S2	56	44	88	63	0	146	140	125	110	58	83	18	144	65	77	1,216	0	750	44	293	635	608		

- b. **Cyflwyno cyllid cyson** sy'n briodol i'r broblem: dylai fframweithiau targedu osod pwyslais clir, ond gallai bod yn rhywun nad yw mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) yn Nwyrain Cymru, er enghraifft, fod yr un mor heriol ag yng Ngorllewin Cymru, felly mae'n bosibl na fyddai trefniadau cyllido gwahanol, gan gynnwys y rheini ar gyfer cyllid cyfatebol, yn briodol i gyflawni'r canlyniadau dymunol.
- c. **Mabwysiadu dulliau systemig er mwyn meithrin cydweithio rhwng mudiadau:** Dylid gwneud hyn, pan fo angen, ochr yn ochr â phrosesau rhannu data a chyfnewid gwybodaeth effeithiol, fel ystyriaeth dylunio yn ogystal ag amcan gweithredol. Gellid ymestyn hyn i ganiatáu a dathlu canlyniadau ar y cyd a gaiff eu cyflawni gan gydweithrediad o bartneriaid (a allai fod yn ansoddol yn ogystal â meintiol). Ni fydd ymyraethau byr, heb gydgysylltiad, gan liaws o fudiadau yn llwyddiannus.
- d. **Dewis a chyllido mudiadau:** Dylid gwneud hyn ar sail eu gallu o ran y targedau, y lleoliadau a'r canlyniadau a ddymunir. Mae lle i systemau cystadleuol, ond rhaid eu rhoi yn eu cyd-destun drwy ddiffinio'r galluoedd sydd eu hangen i gyflawni'r canlyniad dymunol.
- e. **Sicrhau hyblygrwydd wrth ymdrin â phroblemau cymhleth:** gall cynnig un ateb i bawb lesteirio canlyniadau. Gwnaeth yr ESIFs osgoi'r broblem hon gan fwyaf.
- f. **Bod yn gyson dros amser gydag amserlenni prosiect priodol:** Dylid teilwra'r ymateb i natur yr her sydd angen sylw e.e., fel arfer, bydd mentrau cyflogadwyedd ar waith am gyfnodau cymharol fyr ar gyfer ymyraethau a all fod yn anghydnaws â'r anghenion o ran cymorth. Mae'r cysyniad o brosiectau asgwrn cefn sy'n caniatáu parhad dros gyfnodau cyllido olynol yn fodel da.

- g. **Ymwreiddio prosesau olrhain hanfodol ar ôl i'r prosiect ddod i ben:** Yn aml, ni wyddys beth ddigwyddodd ar ôl y cyllid. Dyma wendid llawer o raglenni cyllido (nid dim ond y rheini a gyllidwyd gan yr UE).
- h. **Sefydlu ac ymwreiddio hyfforddiant, rhwydweithio a phrosesau rhannu gwybodaeth effeithiol:** Dylai hyn gynnwys cadre o fuddiolwyr arferion gorau sy'n gallu ac yn barod i rannu eu profiadau â darparwyr eraill â'r gallu i gefnogi dysgu, ystyried beth sy'n gweithio a throsglwyddo arferion gorau wrth gyflawni.
- i. **Cyhoeddi a hyrwyddo gwerthusiadau prosiect/rhaglen:** bydd hyn yn helpu i sicrhau bod buddion yn deillio o'r dysgu.
- j. **Mae'r syniad o Themâu Trawsbynciol (cydraddoldebau, cynaliadwyedd a threchu tlodi o ran y Gronfa) yn werthfawr:** ond mae angen sicrhau'r modd o gyflawni trosolwg o effeithiau a chanlyniadau cyfunol a rhannu dysgu. Mae asesiadau lefel prosiect unigol yn effeithiol ond nid o reidrwydd yn ddigonol i asesu'r cynnydd yn erbyn amcanion strategol.
- k. **Sicrhau bod systemau gweinyddol yn gymesur â lefelau'r dyfarniadau grant:** dylai hyn fod yn argymhelliad sylfaenol.
- l. **Mae model 3-SET yn gweithio** o ran meithrin gallu a chyflawni dull cynhwysol: Mae'n cyrraedd y gweithredwyr hynny sy'n gallu cyfrannu at amcanion allweddol, gan gynnwys mudiadau llai heb lawer o gapasiti ond sydd â gallu arbenigol i ymestyn y cyrhaeddiad a chyflawni gwaith ar themâu craidd megis cydraddoldebau.
- m. **Cynllunio strategaeth ymadael** sy'n seiliedig ar gynaliadwyedd yn y dyfodol: eto, dylai hyn fod yn sylfaenol ac wedi'i ymgorffori... "*mae cynaliadwyedd yn ansicr*"<sup>14</sup>

## Rhai Ystyriaethau Cynllunio

6.3. Rydym hefyd yn awgrymu y dylai dyluniad trefniadau cyllido roi sylw i'r canlynol:

6.4. **Cydbwyso cystadleuaeth a chydweithio:** mae cystadleuaeth, yn yr amgylchiadau cywir, yn golygu dewis y 'cynigion' gorau yn erbyn amcanion y gronfa, h.y., y mudiadau hynny sy'n fwyaf abl i gyflawni'r ochr weinyddol ac ymarferol. Ond, aeth yr ESIFs i'r afael â rhai heriau cymhleth fel diweithdra hirdymor ac anweithgarwch economaidd, a'r ffordd orau o fynd i'r afael â rhain gan amlaf yw drwy gydweithio fel bod unigolion yn cael eu cefnogi drwy broses a all ddechrau gyda sefydlu ffyrdd o fyw rheolaidd, magu hyder a hunangred drwy gymorth i fod yn barod am waith, ac yna i ddod o hyd i waith (ac efallai cymorth y tu hwnt i gael gwaith).

6.5. Anaml iawn y mae un sefydliad yn addas i gyflawni'r holl bethau hyn. Felly, cymorth cydgysylltiedig rhwng mudiadau perthnasol sy'n ddelfrydol, ond gall hyn gael ei danseilio

---

<sup>14</sup> Gwerthusiad Annibynnol o Brosiect Creu'r Cysylltiadau CGGC, 2012, WEFO – cynhaliwyd yr ymchwil gan Old Bell 3 Ltd evaluation.

os cânt eu hannog gan y 'system' i gystadlu. Er enghraifft, efallai mai mudiad sector gwirfoddol sy'n helpu i roi pobl ar ben ffordd, ac yna'n eu cyfeirio at hyfforddiant priodol gyda help y Ganolfan Byd Gwaith o bosibl. Yna er mwyn dod o hyd i waith, bydd angen meithrin perthynas gyda chyflogwyr a all fod yn y sector preifat, cyhoeddus neu wirfoddol.

#### **6.6. Cydbwyso meithrin gallu hunangynhaliol yn erbyn yr angen am gyllid craidd:**

Mae llawer o drefniadau cyllido yn gosod cyfyngiadau amser sy'n seiliedig ar y nod sydd ganddynt o gefnogi prosiect untro neu bennu trefniant a fydd wedyn yn gallu cefnogi ei hun. Mae'r model o weithredu prosiectau asgwrn cefn drwy'r ESIFs, gan gynnal gweithgarwch ar draws cyfnodau cyllido er mwyn cydnabod nad oedd un cyfnod cyllido yn golygu bod y gwaith ar ben, yn un da. Mewn rhai achosion, mae'r rhai a fu'n brosiectau asgwrn cefn bellach wedi sefydlu modelau busnes mwy hunangynhaliol. Ond mewn gweithgareddau eraill a gyllidwyd, mae diwedd cyllid ESIF yn arwain at golli capasiti a adeiladwyd dros 20 mlynedd lle y mae'n amlwg nad yw'r gwaith wedi'i gwblhau eto – mae diweithdra hirdymor ac anweithgarwch economaidd yn enghreifftiau da o hyn yng Nghymru.

*“Roedd angen, ac mae angen, dull mwy strategol o ddefnyddio'r Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd a'r cyllid amgen y DU, gan gynnwys mynd i'r afael â phroblemau ehangach o ran sut i ddatblygu cyfalaf cymdeithasol a seilwaith cymdeithas sifil.”*

Cyfarwyddwr, Welsh Think Tank

#### **Astudiaeth Achos: Dylunio Prosiect Creadigol er mwyn Cydblethu Amcanion Lluosog: Prosiect Ynni Adnewyddadwy Bach AMMV**

6.7. Nod prosiect ynni Adnewyddadwy bach AMMV yw gwneud Aberfan, Mount Pleasant ac Ynysowen – 3,800 o bobl i gyd – yn gymunedau di-garbon enghreifftiol drwy gynnig amrediad eang o gynhyrchion ynni adnewyddadwy sy'n lleihau costau cyfleustodau ac ôl-troed carbon. Datblygodd y cymunedau hyn i greu gweithlu ar gyfer pwll glo Ynysowen ar ddiwedd yr 19eg ganrif. Caewyd y pwll glo ganrif yn ddiweddarach, gan arwain at amddifadedd eang, ac mae'r gymuned yn parhau i fod ymhlith yr 20 ward mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

6.8. Gweledigaeth drosfwaol y prosiect hwn yw gweld swyddi a phrentisiaethau yn cael eu creu i ieuentid drwy'r economi adnewyddadwy sy'n prysur ddatblygu er mwyn disodli ac adfywio'r cyfleoedd hynny a gollwyd yn sgil diflaniad y diwydiant glo.

6.9. Roedd y prosiect yn un o 8 a ddewiswyd i gynhyrchu, defnyddio a gwerthu ynni cymunedol yng Nghymru. Derbyniodd £1.2 miliwn o gyllid ERDF i'w ddefnyddio fel cyllid cyfatebol ar gyfer mentrau ynni cymunedol gyda'r sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol. Er na ddaeth y prosiect ar-lein yn llwyr tan 2022, mae eisoes yn cynhyrchu 0.6MW o drydan, ac yn gobeithio cyrraedd targed estynedig newydd o 1.2MW, yn bennaf drwy ynni solar a batris a gwefru cerbydau trydanol, ond yn gobeithio ehangu'r cwmipas hwnnw. Mae gorbenion y prosiect wedi gostwng o 50% o grant i 22%, ac felly'n rhyddhau mwy o gyllid i'w fuddsoddi'n uniongyrchol mewn ynni cymunedol.

6.10. Mae nifer o'r prosiectau unigol wedi derbyn cyllid cyfatebol gan y sector preifat, ond mae'r galw'n cynyddu nawr ar draws pob sector. Mae'r prosiectau yn cynnig ynni rhatach i fusnesau a grwpiau cymunedol, gyda'r uchelgais o gynhyrchu ynni adnewyddadwy a rhad ar gyfer eu cymunedau cyfan.

6.11. Fel nifer o brosiectau ynni cymunedol, mae gan AMMV y nodweddion i ysgogi arweinyddiaeth, hyblygrwydd a dyfalbarhad gwirfoddol. Cafodd y grŵp bach o sylfaenyddwr drafferth cael cyllid, serch eu hymdrechion pro bono am bron 3 blynedd, yn mynd i'r afael â rhwystrau fel gofynion cyllido a fyddai wedi gofyn iddynt ddarparu'r arian ymlaen llaw. Cawsant help i baratoi'r holl waith papur ac roeddent wedi chwilio euartneriaid 'cyfatebol', ond fe darodd Covid a gwnaethant ganfod nad oeddartneriaid yn gallu parhau. Gwnaethant addasu, dod o hyd i bartneriaid newydd a sicrhau llwyddiant.

6.12. Mae'r prosiect yn mynd ati mewn modd 'system gyfan' ac maen nhw wedi ceisio'u gorau i ategu buddsoddiadau seilwaith ynni gyda chyfleoedd i bobl leol gael hyfforddiant a datblygu eu sgiliau. Maen nhw hefyd wedi cysylltu eu hymdrechion â mentrau cymunedol ehangach gan gynnwys gwesty a bar, mentrau tyfu bwyd a rheoli tir. Hyd yma, mae 16 o swyddi wedi'u creu i bobl leol. Disgwylir i'r ffigur hwn godi wrth i'r tîm prosiect barhau â'u hymdrechion i gael gafael ar asedau cymunedol, creu mentrau drwy stiwardio tir lleol, adeiladu eco-gartrefi i bobl hŷn a dod yn berchennog gwesty eu hunain.

6.13. Pan ddechreuasant, gallai'r tîm prosiect fod wedi ymddangos i rai fel lleisiau unigol yn y gwynt. Ond wrth i'r newid yn yr hinsawdd barhau i fygwth, ac wrth i effeithiau'r argyfwng ynni gynyddu'r costau byw i unigolion a'r gost o redeg busnes i entrepreneuriaid a chyflogwyr, cânt eu gweld bellach fel y bobl sydd wedi deall yn union beth oedd angen ei wneud o'r cychwyn cyntaf.



## Atodiad 1: Amcanion y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd

1. Mae rhai o agweddau allweddol Amcanion y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewrop yng Nghymru ar draws y tri chyfnod cyllido wedi'u crynhoi isod.

- a. **Yn 2000 – 2006**, nod Amcan 1 yng Nghymru oedd hybu cynnyrch domestig gros (GDP) fesul pen o'r boblogaeth yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, helpu i greu swyddi newydd a lleihau anweithgarwch economaidd drwy osod saith blaenoriaeth ar gyfer y cyllid, sef:
  - i. Ehangu a datblygu'r gronfa o Fentrau Bach a Chanolig a meithrin datblygu busnesau.
  - ii. Datblygu arloesedd a'r economi sy'n seiliedig ar wybodaeth
  - iii. Meithrin adfywio cymunedol yn y cymunedau tlotaf.
  - iv. Datblygu pobl a sgiliau.
  - v. Cefnogi datblygu gwledig a defnyddio adnoddau naturiol yn gynaliadwy.
  - vi. Cefnogi buddsoddi mewn seilwaith.
  - vii. Cyllido Cymorth Technegol i gefnogi'r gwaith o reoli a gweithredu'r Cronfeydd mewn modd effeithlon a chydysniol, ac yn ymarferol, helpu mudiadau i lywio'r 'system'. **Noder:** Cyllidwyd cymorth technegol ar draws y tri chyfnod cyllido.

Cafodd pob blaenoriaeth eu rhannu ymhellach yn gyfres o fesurau mwy penodol.

- b. Gwnaeth **rhaglenni 2007 – 2013** gadw'r rhan helaeth o gynnwys y rhaglenni blaenorol o ran yr amcanion i gefnogi ffyniant economaidd a hybu cyflogaeth drwy:
  - i. Feithrin gwaith ymchwil, datblygiad ac arloesedd drwy ddatblygu capasiti busnesau.
  - ii. Cyllido seilwaith sy'n ymwneud yn benodol ag adfywio, telathrebu, yr amgylchedd, ynni a thrafnidiaeth.
  - iii. Cyllido grantiau ad-daladwy a grantiau nad oes angen eu had-dalu i gefnogi swyddi a thwff.
  - iv. Helpu cyflogwyr a chyflogeion i addasu i alwadau economaidd newidiol drwy gynlluniau hyfforddi.

- v. Gwella mynediad at gyfleoedd gwaith, yn enwedig i'r di-waith hirdymor a'r rheini sydd bellaf o'r farchnad lafur.
  - vi. Annog dysgu gydol oes, arloesi yn y gweithle a chyfle cyfartal i bawb.
- c. **2014 – 2020:** Yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, mynegwyd blaenoriaethau o ran meithrin y canlynol:
- i. Ymchwil ac Arloesedd ac wrth drosglwyddo technoleg.
  - ii. Cystadleugarwch ymhlith Mentrau Bach a Chanolig drwy fusnesau newydd, tyfu a moderneiddio busnesau, a mynd i'r afael â methiannau yn y farchnad o ran cyllid.
  - iii. Ynni Adnewyddadwy ac Effeithlonrwydd Ynni.
  - iv. Cysylltedd a Threfol i fynd i'r afael â pherifferoldeb, gwella symudedd y farchnad lafur a chreu swyddi drwy fuddsoddi mewn strategaethau lleol neu ranbarthol.
  - v. Cyflogadwyedd i'r rheini mewn perygl o wynebu tlodi a lleihau anweithgarwch economaidd a diweithdra i'r rheini sy'n wynebu rhwystrau wrth geisio cysylltu â'r farchnad lafur.
  - vi. Gwella sgiliau'r rheini heb fawr o sgiliau, os o gwbl, gan gynyddu sgiliau technegol ac ymgysylltiad graddedigion â gwaith ymchwil a datblygu, a gwella sefyllfa menywod yn y gweithlu.
  - vii. Cefnogi'r rheini nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) a'r rheini sydd mewn perygl o fod yn NEET a chynyddu perfformiad pobl ifanc yn y pynciau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg (STEM) ac uwchsgilio gweithlu gofal plant y blynyddoedd cynnar.
  - viii. Gwella Gwasanaethau Cyhoeddus drwy waith rhanbarthol.
- d. Gwnaeth blaenoriaethau Dwyrain Cymru adlewyrchu'r rheini ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd ar y cyfan, ond eu bod fel arfer yn adlewyrchu amodau economaidd iachach yr ardal dan sylw.